

Cynllun Datblygu Lleol Conwy 2007 – 2022



CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL CDLI5: Bioamrywiaeth a Chynllunio

Mabwysiadwyd Tachwedd 2014

Gellir gweld a lawrlwytho'r ddogfen hon ar wefan y Cyngor ar: www.conwy.gov.uk/cdll, Mae copïau hefyd ar gael yn y prif lyfrgelloedd ac yn swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Adeilad Muriau Rosehill Street, Conwy LL32 8LD neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd o'r ddogfen hon a fyddech gystal â chysylltu â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445 / 575124 / 574232.

Os hoffech gael rhan neu grynodedb o'r ddogfen hon ar gasét, mewn print bras, mewn Braille neu unrhyw ffurf arall, ffoniwch y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575461.

CYNNWYS

Tudalen

Rhestr Talfyriadau	4
Rhestr Termau	4
1. Cyd-destun	5
2. Beth ydi Bioamrywiaeth?	5
3. Bioamrywiaeth yng Nghonwy	6
4. Polisi a Dehongliad Lleol	6
5. Dehongli'r Polisi a Chyflawni Enillion Net	8
6 Datganiad Bioamrywiaeth	13
7 Trwyddedau.....	15
8. Atodiadau	17
8.1 Atodiad 1 – Polisi a Fframwaith Gyfreithiol.....	18
8.2 Atodiad 2 – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r DU (CGBLI).....	23
8.3 Atodiad 3 – Rhestr Wirio Datblygu	26
8.4 Atodiad 4 – Datganiadau Bioamrywiaeth	28
8.5 Atodiad 5 – Amseroedd Arolygu a Argymhellir	32
8.6 Atodiad 6 – Canllaw Rhywogaethau a Chynefinoedd	34
8.7 Atodiad 7- Monitro a Rheoli.....	41
9 Cyfeiriadau	44
10 Dolenni Defnyddiol	45

Rhestr Talfyriadau

AMB	Adroddiad Monitro Blynyddol
CBSC	Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CSDd	Cyngor Sir Ddinbych
AEA	Asesiad Effaith Amgylcheddol
CGC	Cynllun Gweithredu Cynefinoedd
CGBLI	Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol
CDLI	Cynllun Datblygu Lleol
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
CFGA	Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar
ACA	Ardal Cadwraeth Arbennig
CGRh	Cynllun Gweithredu Rhywogaethau
AGA	Ardal Gwarchodaeth Arbennig
CCA	Canllaw Cynllunio Atodol
NCT	Nodyn Cyngor Technegol
CGT	Cynllun Gweithredu Testun
LIC	Llywodraeth Cymru

Rhestr Termau

Adran 42	Adran 42 Deddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006.
Rhywogaethau sy'n cael eu gwarchod gan Ewrop Cofnod	Rhywogaethau sy'n cael eu diogelu gan ddarpariaethau Rheoliadau Cynefinoedd 2010 Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru
Confensiwn Bioamrywiaeth	Y cytundeb cyntaf byd eang i ddarparu fframwaith cyfreithiol ar gyfer cadwraeth bioamrywiaeth, a fabwysiadwyd yn Uwchgynhadledd y Byd yn Rio de Janeiro, Brazil ym Mehefin 1992

1. Cyd-destun

- 1.1 Prif bwrpas y Canllawiau Cynllunio Atodol (CCA) hyn yw helpu pawb dan sylw sy'n delio â datblygiad newydd yng Nghonwy ac sy'n asesu pa effaith y gallai ei chael ar fioamrywiaeth.
- 1.2 Mae llawer o'r pwysau ar fioamrywiaeth yn ymwneud â datblygu a'r defnydd tir. Felly, mae gan y system gynllunio rôl hanfodol i'w chwarae mewn diogelu a gwella bioamrywiaeth trwy gynigion datblygu newydd.
- 1.3 Gall datblygiadau sydd wedi eu dylunio'n dda helpu perchnogion tai i gwrdd â'u hanghenion newidiol, ychwanegu gwerth at eu heiddo a darparu cyfleoedd manwerthu, swyddfeydd neu dwristiaeth fywiog gan wella'r ardal leol. Gyda dyluniadau da mae'n bosibl hefyd gostwng defnydd ynni ac osgoi gwastraffu adnoddau naturiol. Gall y rhan fwyaf o ddatblygiadau hefyd ddarparu a gwella cynefinoedd ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau a gwella bioamrywiaeth y safle a'r ardal o'u hamgylch.
- 1.4 Bydd y Cyngor yn ystyried y CCA hyn wrth wneud penderfyniadau cynllunio gan ddod i rym ar unwaith. Mae Llywodraeth Cymru (LIC) yn cynghori y gellir defnyddio CCA i osod canllawiau manylach ar weithredu polisiau CDLI. Er bod y canllaw hwn yn atodol i'r polisiau cyfredol, mae'n cyd-fynd hefyd â'r cyd-destun polisi cenedlaethol a gafodd ei ddiweddarau, a bydd hwn yn rhan o'r CDLI trwy fonitro blynyddol.
- 1.5 Bydd y CCA hefyd yn hyrwyddo cadwraeth cynefinoedd a rhywogaethau pwysicaf Cymru ac unrhyw gynefin neu rywogaeth arall a nodwyd yn y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy.

2. Beth ydi Bioamrywiaeth?

- 2.1 Bioamrywiaeth ydi'r cyfoeth ac amrywiaeth cynefinoedd a rhywogaethau. Caiff rhai cynefinoedd a rhywogaethau eu cydnabod eu bod o bwysigrwydd rhyngwladol neu genedlaethol tra bo eraill o bwysigrwydd lleol. Mae'r cyfan yn cyfrannu at gymeriad naturiol a phwysigrwydd ardal benodol a'i diffinio. Mae bywyd gwyllt ein mannau agored gwledig ac arfordiroedd yn ffurfio rhan sylweddol o gyswllt pobl â'r amgylchedd naturiol yng Nghonwy, ac yn ffodus mae nifer o'r mannau hyn yn hawdd i'w cyrraedd, gan ychwanegu at ansawdd bywyd ac atyniad yr ardal. Mae bioamrywiaeth yn rhan annatod o amgylchedd naturiol iach a gweithredol. Mae'n hanfodol ar gyfer cynnal systemau byw naturiol, neu'r ecosystemau, sy'n rhoi bwyd, tanwydd, iechyd, cyfoeth a gwasanaethau hanfodol eraill i ni. Mae'n hanfodol ar gyfer ein lles.
- 2.2 Mae pobl yn rhan o'r fioamrywiaeth hwn hefyd ac maent yn gallu'i warchod. Mae'r CCA hwn yn darparu canllawiau sut i warchod a gwella bioamrywiaeth yng nghyd-destun pob datblygiad. Mae'n nodi'r mesurau sydd eu hangen i wella

bioamrywiaeth, gan gynnwys beth sydd angen ei wneud i sicrhau bod enillion net bioamrywiaeth yn darparu dyfodol cynaliadwy.

3. Bioamrywiaeth yng Nghonwy

- 3.1 Mae gan Gonwy doreth o fywyd gwyllt ac amrywiaeth o gynefinoedd. Yn y gogledd mae golygfeydd gwych o bentir prydferth y Gogarth, gyda'i glogwyni môr, palmentydd calchfaen a thir glas. Mae'n bosibl mynd ato ar hyd Cylchdro'r Gogarth, lle mae golygfeydd ar draws Traeth Lafan i Eryri, Ynys Seiriol ac Ynys Môn i'r gorllewin, ac arfordiroedd Gogledd Cymru a Sir Gaerhirfryn i'r dwyrain. Mewn cyferbyniad â hyn mae uwchdiroedd gwyntog bryniau Hiraethog sy'n ffurfio cilfach rhwng coedwig gonifferaidd fawr Clocaenog, bryniau'r Migneint ac wrth gwrs Afon Conwy. Mae Hiraethog yn gynefin ar gyfer bridio i'r bod glas, y gwalch bach a'r grugiar ddu tra bo'r barcud coch yn raddol greu cadarnle iddo'i hun yn ne'r Sir.
- 3.2 Mae ein cefnfro gwledig yn ffurfio calon Conwy ac yn glytwaith o goedwigoedd, uwchdiroedd pori, dyffrynnoedd a gwrychoedd. Mae goedwigoedd derw yn cynnig cynefin ar gyfer ymwelwyr yr haf fel y tingoch, gwybedwr cefnddu, a thelor y coed, tra bo'r dylluan frech a chnocell y coed yma trwy'r flwyddyn. Mae dyffryn eang afon Conwy yn cysylltu cadwyn ogleddol y Carneddau, Eryri a Choedwig Gwydir yn y gorllewin â Choed Hafod a'r bryniau tua'r dwyrain sy'n estyn i Sir Ddinbych a dyffryn Clwyd a'i amaethyddiaeth amrywiol. Ymhellach i'r dwyrain mae Bryniau Clwyd sy'n Ardal o Harddwch Eithriadol Naturiol (AHEN).
- 3.3 Mae gan ein bywyd môr amrywiaeth fawr o anifeiliaid, gan gynnwys cwrelau meddal, anemonau'r môr, pysgod, crancod ac adar môr sy'n bridio. Mae clogwyni arfordirol Conwy yn gynefinoedd ar gyfer y frân goesgoch â phig coch. Dyma rywogaeth brinnaf y fran sy'n nythu ym Mhrydain. Ym Mae Cinnel mae ardaloedd pwysig ar gyfer llygoden y dŵr a'r fadfall gyffredin. Mae gan Gonwy hefyd naw rhywogaeth o ystlumod yn byw yma, gan gynnwys yr ystlum pedol leiaf sydd mewn perygl mawr, ac sydd wedi diflannu o ran fwyaf o'i ardaloedd gogleddol yn Ewrop. Mae poblogaeth gref o'r rhywogaeth hon yn Nyffryn Conwy, felly mae angen asesu'n ofalus unrhyw gais i ailddefnyddio adeiladau sydd wedi mynd â'u pen iddynt.

4. Polisi a Dehongliad Lleol

- 4.1 Mae'r system cynllunio defnydd tir yn pennu'r fframwaith ar gyfer datblygu a defnyddio tir y 25 awdurdod cynllunio yng Nghymru (22 awdurdod lleol a 3 awdurdod parc cenedlaethol), Mae'n rhaid i bob awdurdod baratoi Cynllun Datblygu Lleol, sy'n darparu fframwaith a gydnabyddir yn gyfreithiol ar gyfer rheoli datblygu a phenderfynu ar geisiadau cynllunio yn hierarchaeth y Strategaeth Gymunedol.
- 4.2 Mae gan y CDLI swyddogaeth hanfodol i'w chwarae mewn diogelu cynefinoedd a rhywogaethau pwysig a nodwyd yn y canllaw hwn. Mae'r CCA hwn yn ddolen gyswllt bwysig sy'n dangos gweithredir y CDLI, trwy'r system cynllunio.

- 4.3 Mae colli bioamrywiaeth yn groes i nodau ac amcanion y CDLI o ran cyflawni datblygiad cynaliadwy. Mae felly'n bwysig bod datblygiadau newydd, ailddatblygu a newidiadau mewn defnydd tir yn osgoi, lle bynnag bo hynny'n bosibl, colli neu niweidio nodweddion bywyd gwyllt y safle lle bynnag y bo'n bosibl. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, lle bo ystyriaethau cynllunio pwysicach gall hynny olygu na ellir osgoi hynny. Mewn achos o'r fath, bydd y Cyngor yn ceisio sicrhau bod datblygwyr yn cymryd camau i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol ac yn gwneud iawn a lleihau'r effeithiau hynny na ellir eu hosgoi cymaint a bo modd cyn dechrau'r gwaith datblygu.
- 4.4 Mae llawer o'r pwysau ar fioamrywiaeth yn gysylltiedig â defnyddio a datblygu tir. Felly, mae gan y system gynllunio swyddogaeth hanfodol o ran cadwraeth bioamrywiaeth. Mae gan y Cyngor ecolegydd a swyddog ymholiadau cynllunio, sy'n gallu cynghori pobl am faterion bioamrywiaeth sy'n gysylltiedig â cheisiadau cynllunio. Hefyd, ceir gwerth uwch o drafodaethau ac ymholiadau cyn gwneud cais.

4.5 **Polisi Bioamrywiaeth CDLL Conwy NTE/3**

BIOAMRYWIAETH

POLISI NTE/3 – BIOAMRYWIAETH

1. *Dylai datblygiadau newydd anelu i gadw a, lle bo'n bosibl, gwella bioamrywiaeth trwy:*
 - a) *Leoli sensitif, gan osgoi safleoedd Ewropeaidd sydd wedi'u diogelu neu'r rhai o bwysigrwydd cenedlaethol neu leol.*
 - b) *Cynllunio a dylunio sensitif sy'n osgoi effeithiau neu'n lliniaru trwy raglen y cytunwyd arni unrhyw effeithiau anffafriol ar fioamrywiaeth sydd wedi'u nodi.*
 - c) *Creu, gwella a rheoli cynefinoedd bywyd gwyllt a thirweddau naturiol yn cynnwys cysylltedd,*
 - d) *Integreiddio camau bioamrywiaeth i'r amgylchedd adeiledig,*
 - e) *Cyfrannu tuag at gyflawni targedau yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Leol Conwy (LBAP),*
 - f) *Darparu ar gyfer cytundeb rheoli gyda'r Awdurdod Cynllunio Lleoli sicrhau cadwraeth a dyfodol buddiannau bioamrywiaeth yn y tymor hir lle y bo'n berthnasol.*
2. *Dylai pob cynnig gynnwys Datganiad Bioamrywiaeth sy'n manylu ar raddau'r effaith ar fioamrywiaeth.*
3. *Bydd y Cyngor yn gwrthod cynigion fydd yn cael effaith negyddol ar Safle Ewropeaidd, rhywogaethau a warchodir neu sydd â blaenoriaeth neu gynefin, oni bai fod yr effaith honno wedi'i lliniaru'n ddigonol, a bod camau adfer a gwella priodol yn cael eu cynnig a'u sicrhau trwy amodau neu rwymedigaethau cynllunio.*

5. Dehongli'r Polisi a Chyflawni Enillion Net

5.1 Mae'r adain hon yn cynnig canllawiau sut i fynd i'r afael a chydymffurfio â gofynion Polisi NTE/3. Y prif gwestiwn i'w holi ydi a yw'r holl effeithiau niweidiol tebygol ar nodweddion naturiol, rhywogaethau a chynefinoedd bywyd gwyllt wedi cael eu hosgoi gymaint ag sy'n bosibl.

5.2 Dylai ymgeiswyr yn benodol:

- Osgoi effeithiau niweidiol ar safleoedd dynodedig (gweler gwefan CNC) ac ar rywogaethau a warchodir (yn cynnwys y rhai a restrir yn Atodiad-3).
- Osgoi effeithiau niweidiol ar gynefinoedd a rhywogaethau a nodwyd yn Adran 42 y Rhestr o Gynefinoedd neu Rywogaethau pwysicaf i Gymru a CGBLI Conwy.
- Cynnal yr holl gynefinoedd ac ystyried rhywogaethau sy'n bodoli yng nghynllun a dyluniad y safle gan integreiddio'r broses â'r DAS/Datganiad Bioamrywiaeth.
- Lle bo hynny'n briodol, paratoi cynllun tirweddu yn ystod y cam cyn-gymhwyso gan ystyried yr uchod cyn cyflwyno cais.
- Osgoi gadael y rhywogaethau a'r cynefinoedd sy'n bodoli wedi eu hynysu yn y datblygiad gorffenedig trwy eu cysylltu â chynefinoedd cyfagos gan goridau bywyd gwyllt priodol, fel y nodwyd mewn arolwg blaenorol.

5.3 Yn ddelfrydol dylai'r cam dylunio ddilyn yr wybodaeth arolwg a gasglwyd yn ystod y Cam Cyn-gymhwyso. Dylid darparu mesurau digonol yn y dyluniad ar gyfer bioamrywiaeth a ganfuwyd ar y safle, er mwyn diogelu neu wella hynny, gan eu cysylltu â nodweddion bywyd gwyllt cyfagos lle bynnag bo hynny'n bosibl. Gellir nodi manylion y rhain a'u cyfiawnhau yn y Datganiad Bioamrywiaeth.

5.4 Cam Cyn-gymhwyso

Mae'r cam cyn-gymhwyso yn bwysig iawn wrth ystyried bioamrywiaeth o fewn datblygiad. Mae'n gyfle i drafod y datblygiad gyda swyddogion cynllunio a sefydliadau eraill, lle bo hynny'n briodol, fel yr ymddiriedolaeth bywyd gwyllt lleol neu'r CFGA. Gellir wedyn amlygu unrhyw faterion penodol yn fuan a derbyn yr wybodaeth berthnasol, gan osgoi unrhyw oedi diangen yn ddiweddarach yn y broses gynllunio. Mae trafodaethau cyn gwneud cais fel hyn yn gallu helpu trwy fod yn sail ar gyfer dewis safle datblygu, gwaith arolwg a gosodiad y safle.

5.5 Camau Lliniaru i Leihau Niwed na ellir ei Osgoi

Lle na ellir osgoi effeithiau niweidiol, gellir eu lleihau trwy fesurau lliniaru priodol y gellir eu cynnwys mewn amodau neu ymrwymadau/ cytundebau cynllunio. Rhaid i ymgeiswyr sicrhau'n benodol:

- fod y gwaith yn cael ei wneud ar adeg briodol y flwyddyn er mwyn osgoi aflonyddu ar rywogaethau, gweler Atodiad 6;
- eu bod yn cael unrhyw drwyddedau angenrheidiol, fel bod rhywogaethau a warchodir yn cael eu trin yn iawn. Mae CNC yn darparu canllaw ar rywogaethau a warchodir, gweler Adran 7 ar dudalen 18. Ond cofiwch fod

rhaid cael caniatâd cynllunio cyn gwneud cais am drwydded i aflonyddu ar rywogaeth a warchodir gan Ewrop;

- cymerwyd pob cam posibl arall i leihau cymaint a bo modd ar yr effaith ar fioamrywiaeth, er enghraifft: creu llain ragod rhwng ardaloedd sensitif ac ardaloedd datblygu er mwyn gostwng achosion aflonyddu ar gynefinoedd;
- sicrhau bod isadeileddau newydd (er enghraifft pontydd) yn cael eu dylunio er mwyn darparu cartref i fywyd gwylt a'u galluogi i barhau i symud o gwmpas;
- cynnal statws hydrolegol safleoedd sensitif trwy ddylunio isadeiledd draenio'n ofalus;
- trawsleoli cynefinoedd na ellir eu cadw ar eu safleoedd presennol lle bynnag fo hynny'n bosibl. Er enghraifft, gellir trawsleoli gwrychoedd yn llwyddiannus dim ond i chi gymryd digon o ofal;
- trawsleoli rhywogaethau o gynefinoedd a fydd yn cael eu dinistrio i safleoedd derbyn addas (i'w ddefnyddio fel camau achub yn unig, i arbed rhywogaethau a fyddai'n cael eu colli fel arall).

5.6 **Camau Gwneud iawn am Niwed Gweddilliol**

Lle bydd datblygiad, er gwaethaf pob cam lliniaru posibl, yn cael effaith niweidiol gweddilliol ar fywyd gwylt, gellir gwneud iawn am hynny trwy fesurau a ddyluniwyd i wneud iawn am unrhyw niwed. Lle bo angen hynny, dylai datblygwyr newid cynllun y safle i sicrhau bod lle ar gyfer nodweddion adferol yn ystod cam cynnar y broses cynllunio.

Tra bod iawndal bob amser yn ddewis olaf, bydd yr Awdurdod Cynllunio'n ceisio:

- Sicrhau bod cynefinoedd yn cael eu gwella, eu hadfer neu eu hail-greu ar y safle neu ar ardaloedd eraill o dir (megis cynllun gwneud iawn).
- Sicrhau fod y camau gwneud iawn yn cael eu gwarantu gan amodau neu gan ymrwymadau / cytundebau cyfreithiol.

5.7 Fel arfer, mae ecoleg cynefin lled-naturiol, fel coetir hynafol neu rostir, wedi datblygu dros gyfnod hir o amser, gan gynyddu yn ei werth bioamrywiaeth, ond mae cynefin a gafodd ei greu o'r newydd, fel coetir newydd neu ddôl blodau gwylt, fel arfer yn dlotach yn ecolegol am beth amser, gyda gwerth bioamrywiaeth is iddo. Oherwydd hynny, ystyrir bod adfer neu wella cynefinoedd sydd eisoes yno'n well na'u hail-greu.

5.8 **Buddion Newydd**

Yn ychwanegol at y cynigion eraill ar gyfer mesurau lliniaru neu wneud iawn am effaith uniongyrchol, efallai bydd cyfle i ddarparu budd newydd ar gyfer bywyd gwylt, er enghraifft trwy greu cynefinoedd neu eu gwella. Gellir sicrhau'r rhain trwy ymrwymadau neu gytundebau cynllunio. Dylid manteisio ar bob cyfle posibl i sicrhau y bydd pob cais datblygu'n cyfrannu'n bositif tuag at wella un neu ragor o rywogaethau neu gynefinoedd rhestr Adran 42. Mae hyn yn gwella ansawdd y datblygiad a'i amgylchedd yn gyffredinol, ac yn cynnig budd trwy wella cynladwyedd y prosiect a'i fod yn cydymffurfio'n well â pholisïau cynllunio.

5.9 Dyma enghreifftiau o gamau dylunio a fyddai'n gallu creu budd newydd ac y dylai datblygwyr eu hystyried

- Creu cynefinoedd newydd fel coetiroedd, tir pori garw, dolydd blodau gwyllt, toeau gwyrdd, neu byllau mewn ardaloedd wedi eu tirweddu neu fannau cyhoeddus agored.
- Gosod mannau agored a thirweddu fel bod y planhigion sy'n cael eu plannu rhyngddynt yn ffurfio coridor bywyd gwyllt rhwng cynefinoedd gerllaw'r safle.
- Dylid darparu ar gyfer rhywogaethau fel ystlumod, gwenoliaid, gwenoliaid duon neu dylluanod gwyn gydag adeiladau newydd.
- Adfer safleoedd tirlenwi a mwynau i fod yn laswelltir, rhostiroedd neu welyau cyrs
- Defnyddio Cynlluniau Draenio Cynaliadwy (SUDS) fel bod isadeiledd draenio (fel ffiltro gwelyau cyrs) hefyd yn gweithredu fel cynefin bioamrywiaeth.

5.10 **Sicrhau enillion mewn Bioamrywiaeth**

Mae enillion mewn bioamrywiaeth yn golygu cynyddu nifer, ansawdd neu ystod y rhywogaethau a / neu gynefinoedd o ganlyniad i ddatblygu. Mewn geiriau eraill, mae datblygu safle'n golygu cynyddu asedau bioamrywiaeth yr ardal.

5.11 Mae hyn yn cynnwys diogelu a gwella'r hyn sydd yno eisoes, yn ogystal â darparu cynefinoedd newydd a nodweddion ar gyfer bywyd gwyllt sydd mor hyblyg â bo modd. Mae'n rhaid gwarchod, a gosod camau i wella cyflwr pob cynefin sy'n bwysig yn genedlaethol, yn rhanbarthol neu'n lleol (gan gynnwys cynyddu poblogaethau rhywogaethau nodweddiadol a'r rheiny sy'n bwysig o safbwynt cadwraeth).

5.12 Bydd y cynefinoedd hyn a ddiogelwyd yn cael eu hestyn neu ychwanegu atynt trwy adfer cynefinoedd sydd wedi diraddio neu trwy greu cynefinoedd newydd lle mae'r amodau'n caniatáu hynny. Bydd hyn yn creu rhwydwaith gynhwysfawr o isadeiledd gwyrdd cysylltiedig a fydd yn darparu cynefinoedd bwyd gwyllt ychwanegol, ategol gan ddiogelu cynefinoedd allweddol rhag effeithiau niweidiol mannau datblygedig o fewn safleoedd a'u gweithgareddau cysylltiedig.

5.13 **Gwybodaeth ddigonol**

Wrth ddelio â chais cynllunio, dylai'r Awdurdod Cynllunio sicrhau fod digon o wybodaeth ar gael am fioamrywiaeth y safle, effeithiau posibl y datblygiad ar fioamrywiaeth ar y safle ac oddi arno a pha mor bwysig yw'r effeithiau hynny.

Er mwyn darparu gwybodaeth ddigonol gall ymgeiswyr am ganiatâd cynllunio:

- Ystyried a yw'r datblygiad bwriedig o fewn, neu'n agos at, safle a ddynodwyd ar gyfer cadwraeth natur
- Ystyried yn ofalus cysylltiadau bioamrywiaeth y safle a phresenoldeb neu absenoldeb rhywogaethau a chynefinoedd a warchodir sy'n bwysig i fioamrywiaeth. Efallai bydd angen arolwg manwl.

- Ystyried cysylltiadau â chynefinoedd neu nodweddion naturiol y tu allan i'r safle.
- Cysylltu â'r Ganolfan Cofnodion Lleol (megis COFNOD) i gael data cynefinoedd a rhywogaethau penodol ar gyfer safle (os yw ar gael) a allai gyfrannu at swyddogaeth a dull unrhyw arolwg.
- Ystyried oes angen Asesiad Effaith Amgylcheddol (AEA) ar gyfer y datblygiad.

5.14 Mae arolygon ac adroddiadau arolygon proffesiynol yn gallu helpu'r datblygwr i:

- Asesu effaith y datblygiad ar fioamrywiaeth;
- Cyflwyno digon o wybodaeth amgylcheddol i'r Awdurdod Cynllunio ynglŷn â chysylltiadau'r safle ac effeithiau tebygol y datblygiad;
- Ystyried a ddylid gwneud cais am drwyddedau;
- Ystyried a oes angen Asesiad Priodol i gydymffurfio â Rheoliadau Cynefinoedd.

5.15 Dylai dyluniadau manwl adeiladau a strwythurau eraill gynnwys mesurau arbennig ar gyfer bioamrywiaeth. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori coed mewn dyluniad stryd neu fannau agored 'caled'. Dylai cynlluniau gynnwys safonau penodol ar gyfer integreiddio nodweddion bioamrywiaeth mewn adeileddau a mannau tirweddu caled. Mae nodweddion fel hyn yn cynnwys safleoedd neu adeileddau nythu neu glwydo, 'toeau a ffasadau byw', a llystyfiant ar adeiladau (gweler Pecyn Cymorth ar Doeau Gwyrdd, Asiantaeth yr Amgylchedd', yn: <http://www.environment-agency.gov.uk/cy/busnes/sectorau/91967.aspx>, a phrosiect 'Building Greener' CIRIA, yn <http://www.ciria.com/buildinggreener/>.

5.16 Dylid nodi bod ymchwil sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd yn amcanu at gydweddu cynefinoedd cynlluniau gweithredu bioamrywiaeth ar doeau, gan gyfrannu'n helaeth at fioamrywiaeth.

5.17 Mae'n bwysig nodi y dylai'r hyn sy'n briodol yn lleol arwain y ddarpariaeth ar gyfer rhywogaeth benodol ac y dylid cael cyngor gan ecolegydd profiadol ynglŷn â maint y ddarpariaeth, ei leoliad o fewn y datblygiad, gosodiad a gwybodaeth gysylltiedig. Mae canllawiau technegol ynglŷn â sut gellir ymgorffori'r nodweddion hyn yn parhau i gael ei ddatblygu. Mae ffynonellau manylion y mesurau i'w hystyried wedi'u rhestru ar y dudalen nesaf:

- Bat Conservation Trust – <http://www.bats.org.uk>
- CFGA (Cymdeithas Frenhinol Gwarchod Adar) – <http://www.rspb.org.uk>
- London's Swifts – <http://www.londons-swifts.org.uk>
- Barn Owl Trust – <http://www.barnowltrust.org.uk>
- Black Redstarts – <http://www.blackredstarts.org.uk>

5.18 Lle canfuwyd bod datblygiad yn effeithio ar fioamrywiaeth, bydd disgwyl i ymgeisydd liniaru'r effeithiau hynny a sicrhau enillion bioamrywiaeth net. Mae nifer o ddatblygiadau, hyd yn oed os nad ydynt yn cynnwys cynefinoedd sy'n flaenoriaeth, yn bwysig i gynnal rhywogaethau cyffredin yn ogystal â diogelu

cynefinoedd pwysig. Mae'n bosibl i'r ardaloedd hyn hefyd ddarparu swyddogaethau Isadeiledd Gwyrdd eraill.

5.19 Gellir cyflawni hyn trwy ddilyn canllawiau'r ddogfen hon a thrwy ddefnyddio'r cyfeirlyfrau penodol y mae rhestr ohonynt yng nghefn y ddogfen. Dylid cynnwys y newidiadau hyn ar y dyluniadau a gyflwynir fel rhan o'r cais, yn ogystal â'r hyn a ddisgrifiwyd yn y Datganiad Bioamrywiaeth.

5.20 **Cytundebau Rheoli**


Er bod Polisi NTE/3 yn cyfeirio at gytundeb rheoli gyda'r awdurdod lleol, efallai na fydd angen hynny bob tro, oherwydd gellir gosod amodau ar gyfer rhai materion. Ond, os yw'r budd i fioamrywiaeth yn dibynnu'n bennaf ar reoli safle penodol yn y dyfodol, boed hynny ar y safle neu oddi arno, bydd angen dod i gytundeb cyn gellir rhoi caniatâd cynllunio.

6 Datganiad Bioamrywiaeth


- 6.1 Dylai bob cais gynnwys Datganiad Bioamrywiaeth y gellir ei gyflwyno fel rhan o'r dull 'Un Cais' yn y DAS neu fel dogfen ar wahân. Bydd lefel y manylion yn dibynnu ar y cais a maint yr effaith ar fioamrywiaeth. Dylai'r asesiad effaith hwn ffurfio'r rhesymeg sy'n gefndir i'r Datganiad Bioamrywiaeth. Bydd hyn hefyd yn darparu fframwaith ar gyfer cyflawni enillion bioamrywiaeth net trwy nodi'r hyn sydd i'w gyflawni a'r camau sydd angen eu cymryd i'w gyflawni. Ond yn bwysicach na hynny, sut i gynyddu a gwella bioamrywiaeth cyn dechrau'r datblygiad a'i fod yn cyd-fynd â'r datblygiad yn hytrach nag ar ddiwedd y broses ddatblygu.
- 6.2 Dylai ceisiadau mwy gynnwys targedau mesuradwy penodol ar gyfer enillion bioamrywiaeth net, gan gyd-fynd â blaenoriaethau bioamrywiaeth leol (a chyfrannu at dargedau Cymru fel bo'n briodol). Dylai hefyd ystyried her newid hinsawdd.
- 6.3 Mae Atodiad 4 yn cynnwys enghreifftiau syml o beth i'w ddisgwyl mewn Datganiad Bioamrywiaeth o ran maint a chwmpas y datblygiad. Mae'r Cyngor yn annog datblygwyr i gynnal trafodaethau cyn gwneud cais am ddatblygiadau mawr.
- 6.4 Mae'r siart llif a ganlyn yn darparu canllawiau ynglŷn â phryd mae angen arolwg (arolygon) a Datganiadau Bioamrywiaeth. Mae'r Awdurdod Cynllunio yn gallu'r egluro'r sefyllfa'n fanylach petaech yn dymuno hynny.

Ffigwr 1. Methodoleg Arolwg Bioamrywiaeth


1. Sefydlu'r math o ddatblygiad – Beth ydi'r cais?



2. Canfod a fydd unrhyw gynefinoedd pwysig yn cael eu heffeithio



3. Aseu'r effaith ar Fioamrywiaeth



6.5 Prif amcanion y Datganiad Bioamrywiaeth yw dangos sut fydd y pwyntiau a ganlyn yn cael eu cyflawni o fewn cais y datblygiad:

- **Diogelu a gwella nodweddion gorau'r fioamrywiaeth bresennol:** dylid cadw cynefinoedd allweddol o ansawdd a maint digonol i gefnogi'r rhywogaethau nodweddiadol ac anghyffredin. Mae'r cynefinoedd hyn yn cynnwys safleoedd cadwraeth dynodedig, a chynefinoedd sy'n bwysig yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol, lle mai'r brif flaenoriaeth yw cadwraeth amgylcheddol. Bydd angen dulliau ac adnoddau ar gyfer rheoli'r cynefinoedd hyn yn y tymor hir, er mwyn sicrhau nad oes unrhyw golled net o ganlyniad i'r datblygiad.
- **Lliniaru effaith datblygiad a sicrhau enillion bioamrywiaeth:** lle nad yw cadwraeth natur yn flaenoriaeth, bydd cynefinoedd 'atodol' neu 'ryngbarthol' (yn ogystal â chynefinoedd allweddol) yn bwysig o ran cynnal rhywogaethau mwy cyffredin, yn ogystal â darparu llain ragod ar gyfer cynefinoedd allweddol. Gallai'r ardaloedd hyn hefyd ddarparu swyddogaethau Isadeiledd Gwyrdd eraill.
- **Integreiddio bioamrywiaeth a'r amgylchedd adeiledig:** dylai safleoedd mawr ymgorffori graddfa fawr o athreiddedd ar gyfer bywyd gwylt o fewn yr amgylchedd adeiledig, gan helpu i gynyddu a chynnal bioamrywiaeth. Mae cynllunio a dylunio ar gyfer hyn yn hynod bwysig o ganlyniad i newidiadau diweddar mewn rheoliadau adeiladu sydd wedi gadael ychydig iawn o gyfleoedd i rywogaeth benodol glwydo neu nythu mewn adeiladau newydd.

6.6 Elfennau allweddol Datganiad Bioamrywiaeth:

- **Gosodiad, lleoliad a chyd-destun:** Dylid lliniaru effeithiau niweidiol datblygiad a chymryd camau gwneud iawn er mwyn sicrhau enillion cyffredinol o ran bioamrywiaeth. Bydd angen i gynigion safleoedd strategol gynnwys Aseiad Effaith Amgylcheddol, astudiaethau cyd-destun ac ystyried sylfaen y datblygiad yn ofalus.
- **Dyluniad:** Dylai dyluniadau manwl adeiladau a strwythurau eraill gynnwys mesurau penodol ar gyfer bioamrywiaeth, gan gynnwys coed mewn tirwedd galed, toeau byw ('gwyrdd'), safleoedd nythu a chlwydo.
- **Rheolaeth:** Gall rheolaeth bositif sicrhau cynladwyedd hir dymor. Os caiff cynefinoedd a mannau gwyrdd eu gadael heb eu rheoli, gall esgeulustra ac effaith y datblygiad gael effaith niweidiol arnynt. Dylid cynllunio ac ariannu rheolaeth yn iawn, a dylai gynnwys cymunedau lleol.
- **Nawdd:** Dylai dyrannu nawdd ar gyfer rheolaeth hir dymor fod yn rhan annatod o drefniadau ariannu isadeiledd gwyrdd, gan gynnwys darparu arian wrth gefn.

7 Trwyddedau

- 7.1 Llywodraeth Cymru sy'n gyfrifol am roi trwyddedau ar gyfer gweithgareddau a fyddai'n anghyfreithlon, er enghraifft, tarfu ar rywogaeth sy'n cael ei diogelu gan Ewrop, oni bai bod cyfiawnhad dilys dros hynny, er enghraifft ar gyfer iechyd a diogelwch cyhoeddus, pwrpas amaethyddol, ac yn y blaen.

- 7.2 Mae'r rhan fwyaf o drwyddedau am ddim. Mae CNC hefyd yn rhoi trwyddedau at bwrpasau penodol fel gwyddoniaeth ac addysg.
Ewch i: <http://naturalresourceswales.gov.uk/apply-buy-report/apply-buy-grid/protected-species-licensing/?lang=cy>

8. Atodiadau

	Tudalen	
8.1	Atodiad 1 – Polisi a Fframwaith Gyfreithiol	18
8.2	Atodiad 2 – Y DU a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI)	23
8.3	Atodiad 3 – Rhestr Wirio Datblygu	26
8.4	Atodiad 4 – Arolygon Bioamrywiaeth	28
8.5	Atodiad 5 – Amseroedd Arolygu a Argymhellir	32
8.6	Atodiad 6 - Canllawiau Rhywogaethau a Chynefinoedd	34
8.7	Atodiad 7 – Monitro a Rheoli	42

8.1 Atodiad 1 – Polisi a Fframwaith Gyfreithiol

8.1.1 Cyflwyniad

Mae llawer o anifeiliaid gwyllt a chynefinoedd yn cael eu gwarchod gan deddfwriaeth genedlaethol a deddfwriaeth Ewropeaidd, gan gynnwys:

- Cyfarwyddeb CE ar Gadwraeth Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb Adar, 79/409/EEC)
- Cyfarwyddeb CE ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Fflora a Ffawna Gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd, 92/43/EEC)
- Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
- Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000
- Rheoliadau Gwrychoedd 1997
- Deddf Diogelu Moch Daear 1992
- Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006
- Rheoliadau Difrod Amgylcheddol (Atal ac Adfer) 2009.

8.1.2 Cyfraith Ewrop

Mae Cyfarwyddeb CE ar Gadwraeth Adar Gwyllt (Cyfarwyddeb Adar, 79/409/EEC) a Chyfarwyddeb CE ar Gadwraeth Cynefinoedd Naturiol a Fflora a Ffawna Gwyllt (Cyfarwyddeb Cynefinoedd, 92/43/EEC) yn sefydlu fframwaith deddfwriaethol ar gyfer gwarchod a chadw bywyd gwyllt a chynefinoedd Ewrop.

8.1.3 Mae'r cyfarwyddebau yn gweithredu trwy gyfreithiau cymunedol, ofynion Cytundeb Bonn ar Gadwraeth Rhywogaethau Mudol a Chytundeb Bern ar Gadwraeth Bywyd Gwyllt a Chynefinoedd Naturiol Ewrop. Trosglwyddodd Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2010 (Rheoliadau Cynefinoedd) ofynion y Cyfarwyddebau hyn i gyfraith genedlaethol Prydain Fawr. Mae Rheoliadau 2010 yn rheoliadau cydgrynhoi ac maent yn disodli fersiynau cynharach y Rheoliadau.

8.1.4 Canolbwynt y polisi ydi creu rhwydwaith ecolegol glir o ardaloedd sy'n cael eu gwarchod ledled yr UE, o'r enw NATURA 2000, ar gyfer cynefinoedd a rhywogaethau y credir fod iddynt bwysigrwydd rhyngwladol arbennig, ac felly eu bod yn bwysig i gynnal bioamrywiaeth yn yr Undeb Ewropeaidd. Ei bwrpas ydi cynnal neu adfer y cynefinoedd a'r rhywogaethau i statws cadwraeth ffafriol yn eu hardaloedd naturiol. Bydd y rhwydwaith yn cynnwys:

- Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (AGA): i ddiogelu'r adar a restrwyd yn Atodiad 1 y Gyfarwyddeb Adar yn ogystal ag adar mudol
- Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA): i ddiogelu'r mathau o gynefinoedd a'r rhywogaethau anifeiliaid a phlanhigion a restrwyd o dan y Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

8.1.5 Gofynnir i wledydd yr Undeb fabwysiadu safleoedd cymwys fel Ardaloedd Cadwraeth Arbennig. Argymhellir safleoedd ACA ac AGA i'r llywodraeth gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) a chan asiantaethau cadwraeth natur y

wlad. Yng Nghymru, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gwneud hyn. Byddwn yn ymgynghori â'r cyhoedd cyn cyflwyno safleoedd i'r Comisiwn Ewropeaidd.

- 8.1.6 Yn unol â Nodiadau Cynghori Technegol (TAN) 5, cynhaliwyd *Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd* lleol o effeithiau posibl polisiâu'r CDLI ar Safleoedd a Warchodir gan Ewrop, a'i gynnwys fel Papur Cefndir 11, fel rhan o'r broses CDLI. Mae'r ddogfen hon ar gael ar wefan Conwy: www.conwy.gov.uk/CDLI

Mae rhagor o wybodaeth am ACA ar gael yn:

http://www.jncc.gov.uk/protectedsites/sacselection/SAC_list.asp?Country=W

Mae rhagor o wybodaeth am Ardaloedd Diogelu Arbennig ar gael yn

<http://www.jncc.gov.uk/page-1403>

8.1.7 **Cyfraith y Deyrnas Unedig**

Hysbysir Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) dan Ddeddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad (fel y'i diwygiwyd) i ddiogelu'r asedau pwysig hyn er budd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol. Adeg cyhoeddi'r CCA mae dros 1,000 o safleoedd yng Nghymru, sy'n gorchuddio bron i 11% o arwynebedd y tir.

- 8.1.8 Hysbysir safleoedd SoDdGA gan Gyfoeth Naturiol Cymru, sy'n dewis safleoedd i'w dynodi ar sail meini prawf gwyddonol sydd wedi eu hen sefydlu (a gyhoeddwyd gan y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur). Mae ambell i SoDdGA hefyd wedi'u diogelu ar lefel Ewrop. Gweler 8.1.4 uchod.

- 8.1.9 Diwygiwyd Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981 gan Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, i gryfhau diogelu a rheoli SoDdGA. Mae'r darpariaethau allweddol yn cynnwys:

- Hawl gan CNC i wrthod caniatâd ar gyfer gweithgareddau ar SoDdGA
- Hawl gan CNC i lunio cynlluniau rheoli ar gyfer SoDdGA trwy ymgynghori â rheolwyr tir, a gorfodi'r cynlluniau hyn dan amgylchiadau penodol
- Hawl i apelio i'r Cynulliad yn erbyn camau penodol gan CNC mewn perthynas â SoDdGA
- Dyletswyddau ar gyffwrdd cyhoeddus i hybu cadwraeth a gwella SoDdGA, ac i ymgynghori â CNC cyn ymgymryd â gweithrediadau sy'n debygol o ddifrodi SoDdGA, neu gymeradwyo gweithgareddau fel hyn.
- Camau i ddelio â gweithgareddau niweidiol gan drydydd partion ar SoDdGA gan gynnwys cosbau uwch am droseddau sy'n ymwneud â SoDdGA.

- 8.1.10 Daeth rheoliadau sy'n llywodraethu'r trefnau sut mae'r Cynulliad yn delio ag apeladau mewn perthynas â SoDdGA i rym 31 Gorffennaf 2002.

- 8.1.11 Mae Adrannau 9 ac 13 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (WCA) (fel y'i diwygiwyd) yn cynnwys deddfwriaeth i ddiogelu rhai planhigion ac anifeiliaid gwyllt a restrwyd yn atodlenni 5 ac 8 y Ddeddf uchod.
- 8.1.12 **Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000**
Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy yn rhoi hawl mynediad ar droed i'r cyhoedd ar rai mathau o dir, gan ddiwygio'r gyfraith yn ymwneud â hawl tramwy cyhoeddus, cynyddu mesurau i reoli a diogelu Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chryfhau deddfwriaeth gorfodaeth yn ymwneud â bywyd gwyllt, ac mae'n sicrhau bod Ardaloedd o Harddwch Naturiol Arbennig yn cael eu rheoli'n well. Hefyd trwy'r ddeddf sefydlwyd Fforymau Mynediad Lleol.
- 8.1.13 **Canllawiau Cenedlaethol**
Yn ei ganllawiau polisi cynllunio, mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod swyddogaeth bwysig y system gynllunio i gynnal bioamrywiaeth.
- 8.1.14 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) yn nodi polisiau cynllunio defnydd tir Llywodraeth Cymru. Fe'i ategir gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol (NCT). Cyflwynir cyngor trefniadol yng nghylchlythyrau Llywodraeth Cynulliad Cymru / Swyddfa Cymru. Mae PCC, NCT a'r cylchlythyrau gyda'i gilydd yn ffurfio polisi cynllunio cenedlaethol y mae'n rhaid i awdurdodau cynllunio lleol yng Nghymru ei ystyried wrth baratoi cynlluniau datblygu. Efallai byddant yn bwysig ar gyfer penderfynu ar geisiadau cynllunio unigol a byddant yn cael eu hystyried gan Lywodraeth y Cynulliad ac Arolygwyr Cynllunio wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio sydd wedi ei galw i mewn a phenderfynu ar apeliadau.
- 8.1.15 Mae paragraff 5.2.8 Polisi Cynllunio Cymru yn nodi: *“Mae rhan bwysig i'r system gynllunio o ran bodloni amcanion bioamrywiaeth trwy hybu dulliau datblygu sy'n creu cyfleoedd newydd i wella bioamrywiaeth, rhwystro colli bioamrywiaeth, neu ddigolledu lle na ellir osgoi difrod. Rhaid i awdurdodau lleol fynd i'r afael â materion bioamrywiaeth, cyhyd ag y maent yn ymwneud â chynllunio defnydd tir, mewn cynlluniau datblygu unedol yn ogystal â phenderfyniadau rheoli datblygu.”*
- 8.1.16 Hefyd ym mharagraff 5.1.4 mae'n nodi: *“Mae'n bwysig ystyried bioamrywiaeth a thirwedd yn gynnar wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth reoli datblygu.”*
- 8.1.17 Cefnogir PCC gan gyfres o Nodiadau Cyngor Technegol. Mae NCT 5 'Cadwraeth Natur a Chynllunio, 2009' yn cyflwyno cyngor manwl ynglŷn â phwysigrwydd y system gynllunio wrth gynnal amrywiaeth fiolegol.
Ewch i: <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/ppw2010/?skip=1&lang=cy>
- 8.1.18 Mae Adran 40(1) Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig 2006 (NERC) yn gosod dyletswydd ar bob awdurdod cyhoeddus, wrth weithredu ei swyddogaethau, i “ystyried, cyn belled ag y bo'n cyd-fynd ag ymarfer y swyddogaethau hynny'n iawn, i'r pwrpas o gynnal bioamrywiaeth”. Mae NCT 5 yn nodi sut dylai awdurdodau cynllunio gydymffurfio â'r ddyletswydd hon.

Gweler <http://wales.gov.uk/topics/planning/policy/tans/tan5/?lang=en>

Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr

Daeth Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr UE i rym yn 2000 a daeth yn rhan o ddeddfwriaeth y DU yn 2003. Targed cyffredinol y Gyfarwyddeb yw bod yr holl ddyfroedd mewndirol ac arfordirol yn cyrraedd 'statws ecolegol da' (neu botensial ecolegol da yn achos cyrff dŵr a addaswyd yn helaeth) fan bellaf erbyn 2027. Yn ogystal â hyn, ni ddylai unrhyw gyrff dŵr ddirywio o ran statws. Datblygwyd Cynlluniau Rheoli Basn Dŵr ar gyfer pob un o'r 11 Ardal Basn Dŵr yng Nghymru a Lloegr. Mae'r cynlluniau hyn yn amlinellu statws cyrff dŵr a'r camau angenrheidiol i gyflawni rhwymedigaethau Ewropeaidd. Mae gan gynllunio ran bwysig i'w chwarae i helpu i gyflawni'r heriau hyn. Mae'r cyngor a roddwyd ar y dechrau gan Gyfoeth Naturiol Cymru ynglŷn â'r Gyfarwyddeb i awdurdodau cynllunio lleol yn dal yn berthnasol ac mae ar gael ar: <http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/water-policy/water-framework-directive/?lang=cy>

Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010

Yn ôl Atodlen 3 o Ddeddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 rhaid i bob datblygiad newydd sy'n cynnwys mwy nag un annedd gynnwys SuDS yn eu cynlluniau datblygu. Mae angen i'r rhain gael eu cymeradwyo gan Gorff Cymeradwyo SuDS (SAB) (o fewn awdurdodaeth llywodraeth leol) cyn dechrau adeiladu. Bydd ymgymrwyr Carthffosiaeth, Asiantaeth yr Amgylchedd, Byrddau Draenio Mewnol, Dyfrffyrdd Prydain ac Awdurdodau Priffyrdd yn ymgynghoreion statudol i'r SAB. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol wedi cyhoeddi Safonau Cenedlaethol ar gyfer dylunio, adeiladu, gweithredu a chynnal SuDS, a rhaid i bob SuDS, o leiaf, gydymffurfio â'r safonau hyn. Gall awdurdodau cynllunio lleol ddatblygu'r safonau hyn ymhellach trwy ystyried deddfwriaeth a pholisïau eraill (er enghraifft Deddf yr Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig a rhywogaethau o bwysigrwydd mawr), a thrwy hynny ddefnyddio SuDS ar gyfer swyddogaethau amlddisgyblaethol. Bydd rhaid i ddatblygwyr lleol gydymffurfio â'r safonau lleol a baratowyd gan eu hawdurdod cynllunio lleol. Gweler hefyd bolisi NTE/9.

8.1.19 Asesiad Effaith Amgylcheddol

Dylai datblygwyr wirio os oes angen asesiad o dan Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Asesiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999, ar gyfer eu datblygiad. Mae AEA yn orfodol ar gyfer prosiectau a restrwyd yn Atodlen 1 y Rheoliadau. Mae Atodlen 2 yn rhestru'r prosiectau (gan gynnwys y rheiny fyddai fel arall wedi elwa o hawliau datblygu a ganiateir) sydd angen eu bwrw golwg arnynt gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy er mwyn sefydlu a ydynt yn cynnwys "datblygiad AEA" ai peidio.

8.1.20 Os yw gofynion y cais yn uwch na'r trothwyon a nodwyd, neu fod y cais yn gysylltiedig ag ardal sensitif, bydd angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy benderfynu a fyddai'n debygol o gael effaith sylweddol ar yr amgylchedd yn sgil ffactorau fel ei faint, ei natur a'i leoliad.

- 8.1.21 Petai unrhyw amheuaeth ynglŷn ag oes angen AEA ar ddatblygiad, dylai ymgeiswyr gysylltu â Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i ddechrau, neu wneud cais am “ddewis sgrinio”.
- 8.1.22 **Aseiad Priodol**
Lle mae cais datblygu yn debygol o gael effaith sylweddol ar Ardal Gadwraeth Arbennig (AGA), Ardal Gwarchodaeth Arbennig (AGA) neu safle RAMSAR, Mae angen i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynnal aseiad priodol o dan reol 48 Rheoliadau Cynefinoedd (Cadwraeth Cynefinoedd Naturiol ac ati) 1994. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd gyflwyno aseiad i'r Awdurdod Cynllunio sy'n cynnwys gwybodaeth am holl agweddau'r datblygiad a'i effeithiau posibl, er mwyn cwblhau aseiad priodol. Dylai'r Aseiad fod ar ffurf adroddiad ecolegol a dylid ei gyflwyno fel rhan o'r cais cynllunio. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd ddarparu hynny o wybodaeth sydd ei angen ar yr awdurdod. Mae'n rhaid i'r ymgeisydd dalu am unrhyw arolygon sydd eu hangen ac am ysgrifennu'r adroddiad. Mae'n rhaid i'r Awdurdod ymgynghori â CNC fel rhan o'r broses hon.
- 8.1.23 Ni ellir rhoi caniatâd cynllunio nes cwblhau'r aseiad, a hyd yn oed pryd hynny, dim ond os yw canlyniadau'r aseiad yn dangos na fydd y cais yn cael effaith niweidiol ar gyfanrwydd y safle.

8.2 Atodiad 2 – Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a'r DU (CGBLI)

- 8.2.1 Fel ymateb i'r Cytundeb Bioamrywiaeth Lluniodd Llywodraeth y DU adroddiad, 'Bioamrywiaeth: Cynllun Gweithredu'r DU' (1994), a'i brif amcan oedd: "Cadw a gwella amrywiaeth biolegol yn y DU, a chyfrannau at gadwraeth Bioamrywiaeth byd eang trwy'r holl ddulliau priodol." Mae hyn yn cynnwys nod o beidio â cholli unrhyw fioamrywiaeth net, ac adfer rhai rhywogaethau a chynefinoedd i liniaru colledion yn y gorffennol. Nodwyd yr UKBAP nifer o Gynefinoedd a Rhywogaethau Blaenoriaeth a nodi Cynlluniau Gweithredu Cynefinoedd y DU (CGC) a Chynlluniau Gweithredu Rhywogaethau (CGRh) i'w cynnal. Nodwyd Partneriaid Allweddol ar gyfer pob CGC a CGRh y DU ac roedd yn cynnwys cyrff llywodraethu fel CNC ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ogystal â sefydliadau heb fod yn gysylltiedig â'r llywodraeth fel ymddiriedolaethau bywyd gwyllt. O ganlyniad i Gynllun Gweithredu'r DU, sefydlwyd Grŵp Llywio Bioamrywiaeth y DU a lluniwyd 'Bioamrywiaeth: Adroddiad Grŵp Llywio'r DU' (1995), rhaglen weithredu fanwl i gyflawni amcanion Cynllun Gweithredu'r DU. Roedd yn argymhell nifer o amcanion gan gynnwys creu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (CGBLI) fel modd o weithredu Cynllun Gweithredu'r DU.
- 8.2.2 Yng Nghymru, mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn rhoi arweiniad arbenigol am flaenoriaethau gweithredu ar gyfer Bioamrywiaeth gan ddod â chyfranogwyr y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol at ei gilydd i hyrwyddo a monitro gweithgarwch bioamrywiaeth Cymru.
- 8.2.3 Mae'r Bartneriaeth yn gyfrifol am y rhestr Adran 42 sy'n rhestru'r rhywogaethau a chynefinoedd hynny y mae gweithredu fwyaf ynglŷn â nhw yng Nghymru os yw am gyflawni ymrwymiad Prydain dan y cytundeb i atal colledion bioamrywiaeth.
- 8.2.4 Mae Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy yn cynnwys pob un o'r rhywogaethau a chynefinoedd sydd i'w cael yn ardal Awdurdod Cynllunio Conwy ac sydd ar y rhestr Adran 42, ynghyd â rhai eraill sy'n bwysig yn lleol. Nodwyd y gweithgarwch y mae Conwy'n bartner pwysig ynddo. Efallai bydd gweithgarwch fel hyn yn canolbwyntio ar rywogaethau fel llygoden y dŵr, cynefinoedd fel glaswelltir calchaid neu bynciau mwy cyffredinol fel mannau gwyrdd trefol Conwy (ardaloedd bioamrywiaeth).
I gael rhagor o wybodaeth am Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy ewch i: <http://www.conwy.gov.uk/biodiversity>
- 8.2.5 Dylid ystyried pob rhywogaeth a chynefin yng Nghynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy fel *rhywogaethau neu gynefinoedd blaenoriaeth*, os oes ganddynt gynllun neu gamau gweithredu ai peidio o ran y Canllawiau Cynllunio Atodol hyn (gweler adran 5.2).
- 8.2.6 Dylid cofio nad oes unrhyw beth yn y CGBLI yn cyflwyno rhwymedigaethau ychwanegol ar unrhyw sefydliad partneriaeth na thirfeddiannwr ac mae cydymffurfio â'r ddogfen hon yn hollol wirfoddol (er bod rhai sefydliadau

partneriaeth eraill yn cael eu cyfarwyddo gan ddogfennau eraill i gydymffurfio â'r Cynllun Gweithredu hwn).

- 8.2.7 Diffiniwyd 6 math gwahanol o Weithredu Bioamrywiaeth. Mae'r UKBAP wedi pennu targedau ar gyfer pob cynefin a rhywogaeth o ran math. Gellir cysylltu'r camau lliniaru a gwella a ddarperir trwy ddatblygiadau â'r targedau gan ddefnyddio'r mathau tebyg o dargedau hyn. Nodwyd eu diffiniadau isod;
- 8.2.8 **Mathau Gweithredu Cynefinoedd a Rhywogaethau**
Cynnal Ehangder: Mae'r targed hwn yn diffinio sut byddwn yn mesur maint ffisegol y cynefin. O gofio bod ardaloedd helaeth o gynefinoedd naturiol a rhannol naturiol wedi cael eu colli yn y gorffennol, mae'n amcan allweddol i sicrhau nad oes rhagor o gynefinoedd blaenoriaeth yn cael eu colli, h.y. mae'r CGBLI yn ceisio cynnal maint yr adnodd cyfredol. Bydd unrhyw ddatblygiad sy'n arwain at golli cynefin blaenoriaeth yn groes i amcanion yr UKBAP a Chynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Conwy. Ond mewn rhai achosion gellir edrych ar y math hwn o darged fel dim colled net o gynefinoedd. Mae hyn yn berthnasol i'r achosion hynny lle mae'n bosibl ail-greu cynefin yn unig, e.e. gallai datblygiad sy'n arwain at golli coetir eilaidd (heb fod yn hynafol) gynnwys cynlluniau i ailblannu ardal debyg o goetir.
- 8.2.9 **Cyflawni Cyflyrau:** Mae'r targed hwn yn diffinio ansawdd cynefin. Pan fo'r cynefin yn cael ei asesu yn erbyn nifer o nodweddion mesuradwy, gellir penderfynu a yw'r cynefin mewn Cyflwr Ffafirol neu Anffafirol. Os cynhaliwyd asesiad cyflwr yn y gorffennol mae'n bosibl ychwanegu'r cyflwr hwn i'r datganiad cyflwr fel tueddiad. Caiff tueddiad cadarnhaol ei ddiffinio fel 'Yn adfer' a thueddiad negyddol fel 'Yn dirywio' a diffiniwyd dim tueddiad canfyddadwy'n fel 'Dim newid'. Mae'r UKBAP yn nodi dylai cyfrannau o helaethder cynefinoedd blaenoriaeth fod un ai yn Ffafirol neu'n Anffafirol - Gwella erbyn 2015. Mae unrhyw ddatblygiad sy'n arwain at golli ansawdd presennol neu a fydd yn atal gwelliant posibl i gynefin yn groes i amcanion yr UKBAP. Mae llawer o'r gwelliannau a restrwyd yn Adran 3b y ddogfen hon yn cyfeirio at y targed Cyflawni Cyflyrau.
- 8.2.10 **Adfer:** Mae'r targed hwn yn diffinio'r prif welliannau i gynefin crair, cynefin hynod ddiraddedig neu gynefin wedi'i ddiinstrio'n ddiweddar. Mae'r hyn sy'n cael ei ystyried fel Adferiad o'i gymharu â Chyflawni Cyflwr neu Ehangu wedi'i ddiffinio ar gyfer pob cynefin blaenoriaeth UKBAP. Yn y rhan fwyaf o achosion ni fydd yn effeithio'n uniongyrchol ar y math hwn o darged gan ei fod yn ei hanfod yn cyfeirio at ddadwneud dirywiad sydd eisoes wedi digwydd. Fodd bynnag, mae'n debygol bydd gwneud iawn neu gamau lliniaru am golli maint neu ansawdd cynefin yn golygu bod angen adfer cynefin tebyg neu gyfagos.
- 8.2.11 **Ehangu:** Mae'r targed hwn yn diffinio creu ardaloedd cynefin newydd, fel cloddio pwll newydd neu blannu coetiroedd a gwrychoedd newydd. Fel gydag Adferiad, mae'n debyg bydd gwneud iawn neu gamau lliniaru am golledion yn golygu bod angen i ddatblygiad greu cynefin newydd lle bo'n briodol gwneud hynny.
- 8.2.12 **Amrediad:** Mae'r targed hwn yn diffinio ardal ffisegol y mae'r rhywogaeth yn bresennol ynddi. Fel gwaelodlin, mae'r UKBAP yn ceisio sicrhau bod pob

rhywogaeth yn cadw ei amrediad cyfredol. Er mwyn dadwneud colledion yn y gorffennol, mae gan bob rhywogaeth darged i gynyddu ei amrediad trwy symud i safleoedd newydd neu ddychwelyd i safleoedd roedd yn arfer byw ynddynt. Mae unrhyw ddatblygiad sy'n sy'n achosi gostyngiad mewn amrediad rhywogaethau'n groes i'r UKBAP. Effeithir ar lawer o ddatblygiadau gan yr angen i gynnal yr amrediad o rywogaethau, yn enwedig ar gyfer rhywogaethau fel ystlumod. Yn aml, bydd yn amod caniatâd cynllunio fod datblygiad yn cynnwys modd i'r rhywogaeth barhau ar y safle, fel cynnwys darpariaeth i ystlumod barhau i ddefnyddio adeilad. Gall Cyflawni Cyflwr, Adfer ac Ehangu cynefinoedd hefyd gynyddu'r ystod o rywogaethau penodol ac felly efallai bydd darpariaeth ar gyfer rhywogaethau yn cael ei gynnwys mewn camau gweithredu rheoli cynefinoedd.

- 8.2.13 **Poblogaeth:** Mae'r targed hwn yn diffinio gwir ansawdd rhywogaeth, un ai mewn gwerthoedd absoliwt (e.e. nifer yr unigolion) neu ddefnyddio benthyciad addas (e.e. nifer y parau bridio). Bydd unrhyw ddatblygiad sy'n arwain at ddirywiad mewn niferoedd poblogaeth yn groes i'r UKBAP. Gall y dirywiad hwn ddigwydd mewn sawl ffordd; colli ardal neu ansawdd cynefin; colli nodweddion penodol fel hen goed; aflonyddu neu eithrio sy'n atal mynediad at loches, gorchudd neu fwyd; anaf corfforol neu farwolaeth unigolyn yn ystod y gwaith adeiladu, un ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Mewn sawl achos gall dull a chyfnod y datblygiad sicrhau nad yw unigolion yn cael eu niweidio, ond mae colli ansawdd ac ehangder cynefin yn effeithiau tymor hirach, y bydd angen eu lliniaru neu wneud iawn amdanynt.

8.3 Atodiad 3 – Rhestr Wirio Datblygu

Rhestr Wirio pan fo angen arolygon bioamrwyiaeth Gweler hefyd Atodiad 4 Arolygon Bioamrywiaeth

Pan fo cais am ddatblygiad sy'n debygol o gael effaith ar rywogaethau neu gynefinoedd a ddiogelir neu y rhoddir blaenoriaeth iddynt, rhaid i'r ymgeisydd darparu gwybodaeth bellach ar ffurf arolygon bioamrywiaeth a gwerthuso'r effeithiau. Mae'r tabl canlynol yn rhoi canllawiau ynghylch pryd mae angen yr arolygon hyn, a dylech sicrhau bod yr holl gynefinoedd sy'n bodoli ar y safle datblygu wedi eu cynnwys.

Mae'n bosibl na fydd angen gwybodaeth arolwg fanwl os gellir dangos yn bendant na fydd y cais yn effeithio ar y cynefin/rhywogaeth, naill ai oherwydd nad yw'n bendant yn bresennol neu oherwydd bod dyluniad y datblygiad wedi osgoi pob effaith bosibl.

Mae'r canllawiau isod o anghenraid yn gyffredinol, ac mae croeso i chi gysylltu â'r adran gynllunio i gadarnhau'r gofynion sy'n benodol i safle.

Cynefin	Gofynion arolwg *
Pyllau, dŵr llonydd arall, ffosydd Afonydd a nentydd Ffeniau a chorsydd	Arolwg Cynefin o leiaf i uwch safon Cam 1 Madfall ddŵr gribog Dyfrgi Llygoden bengron y dŵr Glas y dorlan Aderyn sy'n nythu
Safleoedd tir brown Tir glas (calchaid, niwtral lled-naturiol, tir glas asidig a chors)	Arolwg Cynefin o leiaf i uwch safon Cam 1 Mochyn daear Ymlusgiad Aderyn sy'n nythu (Madfall ddŵr gribog os oes cofnodion o fewn 500m yn y Cofnod)
Twyn tywod Tir glas arfordirol Graean bras arfordirol	Arolwg Cynefin o leiaf i uwch safon Cam 1 Ymlusgiad Aderyn sy'n nythu Aderyn sy'n bwydo a gaeafu
Blaen traeth	Aderyn sy'n bwydo a gaeafu
Tir glas sydd wedi ei wella'n amaethyddol	Mochyn daear
Rhos a rhostir grug	Arolwg Cynefin o leiaf i uwch safon Cam 1 Ymlusgiad Aderyn sy'n nythu (Madfall ddŵr gribog os oes cofnodion o fewn 500m yn y Cofnod)
Gwrychoedd, prysgwydd a choetir	Arolwg Cynefin o leiaf i uwch safon Cam 1 Aderyn sy'n nythu Pathew Ystlum
Chwareli, wyneb clogwyn	Arolwg Cynefin o leiaf i uwch safon Cam 1 Ystlum Aderyn sy'n nythu Ymlusgiad

Adeiladau wedi mynd â'u pen iddynt, pontydd	Ystlum Tylluan wen Aderyn sy'n nythu
---	--

* Nodwch y dylai'r syrffewr nodi *pob* diddordeb bioamrywiaeth ar safle, hyd yn oed os nad yw'n ymddangos yn y golofn ar yr ochr dde.

Mathau penodol o ddatblygiad

Hefyd, mae gan y ddau fath canlynol o ddatblygiad ofynion arolwg penodol, ond mae'n bosibl y byddwch am gael canllawiau pellach:

Maeth o ddatblygiad	Gofynion arolwg
Datblygiad mewn ardaloedd gwledig sy'n cynnwys unrhyw addasiad i'r to	Ystlum
Datblygiad tyrbîn gwynt ar raddfa fach	Arolwg Cynefin o leiaf i uwch safon Cam 1 Ystlum

8.4 Atodiad 4 – Datganiadau Bioamrywiaeth

Mae'r tair enghraifft a ganlyn yn nodi'r math o gynnwys i'w ddisgwyl ar gyfer datblygiadau gwahanol. Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac efallai bydd angen rhagor o waith ac ymgynghori ychwanegol ar rai datblygiadau:

Enghraifft 1 – datganiad bioamrywiaeth i gyd-fynd â chais

Cyfeirif y cais .

0/44444

Cynnig

Estyn anheddiad i greu ystafell wely ychwanegol ac ystafell ymolchi.

Lleoliad o ran cynefinoedd sy'n werthfawr i fioamrywiaeth

Ar gyrion y pentref, gyda choed, gwrychoedd, porfa a nant o fewn 100 metr.

Yr effaith ar fioamrywiaeth

Bydd yr estyniad yn 4m x 5m a bydd yn cael ei adeiladu ar dir sy'n rhannol yn lawnt ac yn rhannol fel patio ar hyn o bryd. Bydd angen torri un ddraenen wen ifanc hefyd. Nid oes gan y goeden hon unrhyw dyllau y byddai adar nythu neu ystlumod yn gallu eu defnyddio. Bydd to'r estyniad yn cael ei gysylltu â'r wal dalcen ac ni aflonyddir ar y to presennol

Asesu'r effaith ar fioamrywiaeth

Nid yw'r lawnt na'r patio yn bwysig ar gyfer bioamrywiaeth. Bydd effaith torri'r goeden yn ddibwys oherwydd y coed a'r gwrychoedd cyfagos. Ni aflonyddir ar y to presennol ac felly ni fydd y gwaith yn gallu effeithio ar ystlumod.

Camau gwella i'w cynnwys yn y datblygiad

Bydd ddraenen wen newydd yn cael ei phlannu ar ôl cwblhau'r estyniad .
Bydd blwch nythu addas ar gyfer titwod tomos las yn cael ei osod ar wal yr estyniad gorffenedig.

Enghraifft 2 – datganiad bioamrywiaeth i gyd-fynd â chais

Cyfeirif y cais .

0/55555

Y Cynnig

Adnewyddu ac addasu hen adeilad allanol nad yw'n cael ei ddefnyddio i greu annedd newydd

Lleoliad o ran cynefinoedd sy'n werthfawr i fioamrywiaeth

Ar gyrion y pentref, gyda choed, gwrychoedd, porfa a nant i gyd o fewn 100 metr.

Gwybodaeth Bioamrywiaeth

Roedd Canllawiau Cynllunio Atodol 5 y Cynllun Datblygu Lleol – Bioamrywiaeth yn nodi bod angen arolwg rhywogaethau a warchodir gyda'r cais hwn. Cynhaliwyd yr arolwg gan Ymgynghorwyr Ecolegol Cyf. ac mae ynghlwm gyda'r datganiad hwn. Nodwyd yn adroddiad yr arolwg fod clwydfa ystlumod lleiaf dan fondo pen gorllewinol yr adeilad allanol a chofnodwyd nifer o nythod wenoliaid yno hefyd yn ddiweddar.

Asesu'r effaith ar fioamrywiaeth

Oherwydd bod adnewyddu'r adeilad yn cynnwys Ail-doi a newidiadau i ofod y groglofft, bydd clwydi presennol yr ystlumod yn cael ei ddinistrio. Yn yr un modd ni fydd yn bosibl cadw safleoedd nythu'r gwenoliaid lle maent ar hyn o bryd oherwydd maent yn nythu ble fydd prif fan byw'r annedd newydd.

Cynigion ar gyfer lliniaru'r effaith ar fioamrywiaeth

I gydymffurfio ag adroddiad yr ymgynghorwyr, newidiwyd y dyluniadau gwreiddiol i sicrhau y bydd yr ystlumod yn gallu clwydo o hyd yn yr annedd newydd a dangosir y newidiadau hyn ar y cynlluniau a gyflwynir gyda'r cais. Byddwn yn cyflwyno cynllun manwl i ddangos sut fyddwn yn gweithredu argymhellion eraill yr adroddiad, i'r Awdurdod Cynllunio i'w cymeradwyo cyn dechrau'r gwaith. Bydd y cynllun hwn yn ymdrin â materion fel amser y gwaith, goleuadau allanol a mynediad i'r glwydfa newydd, ac yn y blaen. Byddwn hefyd yn cyflwyno manylion cynllun i gadw a neu greu safleoedd nythu addas ar gyfer wenoliaid, gan gynnwys amser y gwaith bwriedig, i'r Awdurdod Cynllunio i'w cymeradwyo cyn dechrau'r gwaith.

Camau gwella i'w cynnwys yn y datblygiad

Cafodd y camau lliniaru a ganlyn eu cynnwys yn y datblygiad yn ychwanegol at y cam lliniaru uniongyrchol a nodwyd uchod:

- Gosod dau flwch 'Schwegler' i ystlumod ar ddwy wal wahanol yr adeiladau allanol sydd i'w cadw, i ddarparu cyfle ychwanegol i'r ystlumod glwydo.
- Gosod nifer o nythod artiffisial gwennol y bondo dan fondo'r adeilad newydd gan obeithio y byddant yn annog y rhywogaeth hon i nythu yno.

Enghraifft 3 – datganiad bioamrywiaeth i gyd-fynd â chais

Cyfeirif y cais .

0/66666

Y cais

Adeiladu 20 annedd newydd ar safle a ddynodwyd yn y CDLI.

Lleoliad o ran cynefinoedd sy'n werthfawr i fioamrywiaeth

Ar gyrion y pentref gyda choed, gwrychoedd a phorfa ar safle'r cais. Mae nant yn ffurfio terfyn y safle gyda llain gul o goetir – tua 15m – rhwng y nant a'r cae, y mae'r rhan fwyaf ohono ar lethr serth .

Gwybodaeth bioamrywiaeth

oedd Canllawiau Cynllunio Atodol 5 y Cynllun Datblygu Lleol - Bioamrywiaeth yn nodi bod angen cyflwyno arolwg rhywogaethau a warchodir gyda'r cais hwn. Cynhaliwyd yr arolwg gan Ymgynghorwyr Ecolegol Cyf. ac mae ynghlwm gyda'r datganiad hwn. Nododd adroddiad yr arolwg:

- i Nad oedd unrhyw ddynodiadau cadwraeth ar y safle hwn
- ii Mae'r coetir ger y nant yn cadw nodweddion coetir hynafol, ond mae wedi dioddef tipio anghyfreithlon a rhywogaethau ymlledol.
- iii Mae dyfrgwn yn teithio'n aml ar hyn y nant, ond nid oes unrhyw olion o'u gwâl wrth ymyl safle 'r cais .
- iv Mae gan rai o goed y safle nodweddion y gellir eu defnyddio gan ystlumod, hynny yw, tyllau neu holltau, ond ni chanfuodd arolygon gweithgarwch ystlumod unrhyw glwydfeydd. Cofnodwyd nifer o ystlumod yn hela uwch ben y safle.
- v Ni chofnodwyd unrhyw rywogaeth blaenoriaeth arall yr effeithir arnynt gan y datblygiad
- vi Mae gwrych sy'n croesi'r safle yn cynnwys llu o rywogaethau ac mae'n debygol ei fod yn hynafol. Ond nid yw'r gwrych hwn wedi'i gysylltu â gwrychoedd oherwydd ei fod yn gorffen wrth ymyl ffordd, ac felly nid oes gwerth uchel iddo fel coridor bywyd gwyllt.
- vii Mae'r glaswelltir wedi'i wella'n amaethyddol ac nid yw'n bwysig i fioamrywiaeth.

Disgrifiad o'r effaith ar fioamrywiaeth a sut i osgoi'r effaith honno

Dyluniwyd y datblygiad i gadw'r coetir wth lannau'r nant a chymaint o nodweddion bioamrywiaeth a bo modd. Ni ellir cadw'r gwrych yn ei safle presennol, ond bydd yn cael ei drawsblannu i greu terfyn newydd rhwng y coetir a'r datblygiad, a bydd y ddwy dderwen llawn dwf yn cael eu cadw ar eu safle presennol. Ni ellir cadw trydedd dderwen a bydd rhaid ei thorri.

Asesu a lliniaru'r effaith ar fioamrywiaeth

i Coetir

Mae'r coetir wedi'i gysylltu'n dda â choetir eraill y naill ben a'r llall iddo ac felly mae gwerth uchel fel coridor bywyd gwyllt. Ni ragwelir y bydd y datblygiad yn cael unrhyw effaith ar ddyfrgwn oherwydd bydd y coetir yn cael ei gadw. Bydd y coetir yn cael ei reoli gan grŵp cadwraeth lleol am swm gohiriedig, er budd y gymuned. (Bydd cynyddu mynediad i'r cyhoedd yn arwain at ragor o aflonyddu ar ran o'r coetir yn ystod y dydd, ond oherwydd bod dyfrgwn yn teithio liw nos, byddant yn osgoi unrhyw wrthdaro). Cyflwynir cynllun rheoli'r coetir i'r Awdurdod Cynllunio i'w gymeradwyo cyn bod unrhyw un yn byw yn yr aneddiadau.

ii Y gwrych

Bydd y gwrych yn cael ei drawsblannu pan na fydd yn tyfu, yn unol ag arfer gorau. Ni chofnododd arolygon ystumod niferoedd mawr o ystumod yn defnyddio'r gwrych fel coridor teithio, ac felly dylai adleoli'r gwrych sicrhau cadw ei werth bioamrywiaeth bresennol.

iii Coed

Bydd cadw'r ddwy goeden llawn dwf yn y datblygiad yn osgoi effeithiau eu torri. Byddwn yn ail archwilio'r dderwen llawn dwf arall i weld a oes ystumod yn clwydo ynddi cyn ei thorri a byddai hynny y tu allan i'r tymor nythu hefyd. I wneud iawn am golli cyfleoedd clwydo / nythu, bydd dau flwch 'Schwegler' ar gyfer ystumod a 5 blwch nythu yn cael eu gosod yn y coetir.

Camau gwella sydd wedi'u cynnwys yn y datblygiad

Bydd y coetir ger y nant yn cael ei reoli i gael y budd gorau ohono ar gyfer bioamrywiaeth. Bydd cynllun rheoli'n cael ei lunio (a'i gyflwyno i'w gymeradwyo) i sicrhau'r lefel rheoli angenrheidiol i gyflawni hynny. Mae enghreifftiau o'r gwaith i'w gyflawni'n cynnwys cael gwared ar rywogaethau estron (jac y neidiwr) a chael gwared ar gryn swp o sbwriel sydd wedi ei dipio yno .

Bydd blwch nythu ar dalcen pob tŷ.

Mae'r cynllun tirlunio a fydd yn cael ei gyflwyno i'w gymeradwyo'n cynnwys plannu rhagor o goed, gan ddefnyddio rhywogaethau a fydd yn denu bywyd gwyllt.

8.5 Atodiad 5 – Amseroedd Arolygu a Argymhellir

8.5.1 Dyma ganllawiau ychwanegol petai angen cynnal arolwg:

Mae'n bwysig cofio, yn ogystal â'r arolwg ei hun, fod angen cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio asesiad o'r effeithiau, ac argymhellion sut i osgoi'r effeithiau hynny, neu os methir â gwneud hynny, pa gamau lliniaru a gynigir. Fel arfer bydd y rhain wedi'u cynnwys yn yr adroddiad arolwg, yn dilyn trafodaethau rhwng y syrfëwr a'r ymgeisydd. Efallai byddai'n ddefnyddiol cynnwys yr Awdurdod Cynllunio Lleol mewn trafodaethau ynglŷn â'r camau lliniaru posibl, i sicrhau eu bod yn briodol a digonol. Gall y rhan hwn o'r adroddiad ddisodli'r Datganiad Bioamrywiaeth os yw'n cynnwys yr holl wybodaeth sydd ei angen.

8.5.2 Adeg cyhoeddi'r CCA hwn, mae templed cyffredin ar gyfer cyflwyno canlyniadau arolygon yn cael ei lunio ar gyfer Gogledd Cymru, a phan gytunir arno, disgwylir y bydd adroddiadau arolygon yn cael eu cyflwyno yn y fformat hwn. Gweler: www.conwy.gov.uk/biodiversitysurveys

8.5.3 Trwy gyflwyno canlyniadau arolygon i gyd-fynd â cheisiadau cynllunio, mae'r ymgeiswyr yn rhoi eu caniatâd hwy a'u syrfewyr, i'w hanfon ymlaen at Cofnod, sef Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru a'u defnyddio er mwyn ehangu'r yr wybodaeth sydd ar gael ynglŷn â bioamrywiaeth yng Ngogledd Cymru, oni bai bod y Cyngor yn cael rhybudd fod caniatâd fel hyn yn cael ei dynnu nôl.

8.5.4 Arolygon

- Rhaid eu cynnal gan unigolion cymwys a phrofiadol; os nad yw'r syrfëwr yn aelod o'r IEEM, neu os nad yw'r syrfëwr yn hysbys i'r ACLI, yna bydd angen CV a geirda.
- Rhaid eu cynnal ar amser a mis priodol o'r flwyddyn, mewn tywydd addas gan ddefnyddio technegau arolygu cydnabyddedig;
- Rhaid iddynt fod ar lefel addas a chydabyddedig o ran eu cwmpas a'u manylion ac mae'n rhaid iddynt gofnodi a mapio'r ystod o gynefinoedd a rhywogaethau fflora a ffawna sydd ar y safle;
- Rhaid iddynt gynnwys canlyniadau'r chwiliad o ddata ecolegol o Cofnod, Gwasanaeth Gwybodaeth Amgylcheddol Gogledd Cymru (**nid** yw chwiliadau o'r porth NBN fel arfer yn ddigon da)

8.5.5 Gwerthuso

- Rhaid iddynt gynnwys asesiad o effeithiau tebygol y datblygiad ar gynefinoedd a rhywogaethau sy'n bwysig yn genedlaethol ac yn lleol ar y safle neu'r ardal;

8.5.6 Lliniaru

- Dylid nodi'r camau i'w gweithredu i osgoi effeithio ar fioamrywiaeth y safle a'r ardal, un ai yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, wrth adeiladu ac wedi hynny;

8.5.7 Bydd angen rhagor o arolygon ar y Cyngor os yw'n credu nad yw'r manylion a ddarparwyd yn ddigonol. Efallai bydd y Cyngor yn cynnig camau lliniaru trwy osod amodau cynllunio, un ai i sicrhau bod y camau a gynigir gan yr ymgeisydd wedi'u gweithredu, neu i sicrhau bod y cynigion lliniaru sy'n briodol ym marn y Cyngor, yn cael eu gweithredu fel rhan o'r datblygiad.

Arolwg ar gyfer:	Math	I	C h	M	E	M	M	G	A	M	H	T	R h
Adar	Bridio			✓	✓	✓	✓	✓					
	Gaeafu	✓	✓								✓	✓	✓
Ymlusgiaid	Presennol				✓	✓	✓	✓	✓	✓			
Madfallod dŵr cribog	Presennol			✓	✓	✓	✓	✓	✓				
Llygoden bengron y dŵr	Presennol			✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓		
Dyfrgi	Chwilio am arwyddion urhyw adeg ond gallai lifogydd ar hyd cyrsiau dŵr gael gwared ar faw dyfrgwn.	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓	✓
Moch daear	Arolygon daear	✓	✓	✓	✓						✓	✓	✓
	Marcio abwyd		✓	✓	✓					✓	✓		
Pathewod	Chwilio am gnau cyll									✓	✓	✓	
	Chwilio am nythod					✓	✓	✓	✓	✓			
Ystumod	Clwydydd					✓	✓	✓	✓	✓			
	Gaeafgysgu	✓	✓	✓								✓	✓
Britheg y gors	Presennol						✓			✓	✓		
Britheg frown								✓					
Cynefinoedd:	Tir glas					✓	✓	✓	✓				
	Coetir/gwrych				✓	✓	✓						
	Pyllau/cyrsiau dŵr					✓	✓						
Ffyngi							✓	✓	✓	✓	✓	✓	

8.6 Atodiad 6 – Canllaw Rhywogaethau a Chynefinoedd

- 8.6.1 Mae'r adran hon yn darparu canllawiau ar gyfer y rhywogaethau hynny y mae'n debygol yr effeithir arnynt fwyaf, fel y rhestrwyd yn Atodiad 3.
- 8.6.2 Effeithir ar rai rhywogaethau yn fwy nag eraill gan bwysau datblygu ac felly, gall y system gynllunio fod â mwy o ddylanwad ar eu cadwraeth. Efallai bydd dylanwadau y tu allan i reolaeth cynllunio yn effeithio ar rywogaethau eraill, fel dwysau amaethyddiaeth. Mae rhywogaethau y gall cynllunio a datblygu yng Nghonwy fod â dylanwad penodol arnynt yn cynnwys ystlumod, tylluanod gwyn, adar sy'n bridio, moch daear, a rhywogaethau torlannol a dyfrol, yn enwedig dyfrgwn, llygod y dŵr a rhywogaethau pysgod. Mae pob un o'r 17 rhywogaethau o ystlumod yn y DU wedi eu cofnodi mewn adeiladau, ac mae'r amgylchedd adeiledig yn darparu manau hanfodol ar gyfer sawl rhywogaeth i glwydo, gan gynnwys yr ystlum adain lydan, ystlum pedol mwyaf a'r ystlum pedol lleiaf, ystlum Natterer, yr ystlum lleiaf a'r ystlum hirglust.
- 8.6.3 Bydd newid digynsail yn y diwydiant adeiladu, o ran rheoliadau, technegau, deunyddiau ac arddulliau adeiladu newydd, yn helpu i leihau ôl troed carbon stoc tai'r dyfodol. Fodd bynnag, mae defnyddio safonau newydd yn golygu am y tro cyntaf erioed mai ychydig o gyfleoedd clwydo a nythu newydd fydd ar gael ar gyfer rhai rhywogaethau sy'n ddibynnol ar adeiladau. Fodd bynnag, gall newidiadau bach o ran dyluniad wneud adeiladau newydd yn addas ar gyfer ystlumod ac adar fel ei gilydd, a hynny wrth elwa o'r safonau newydd gwell.
- 8.6.4 Mae adroddiad Grŵp Tasg Bioamrywiaeth y Green Building Council (GBC) UK, *Biodiversity and the Built Environment 5* yn nodi sut i gael y budd gorau o werth ecolegol safle, trwy ddylunio adeiladau ac adeileddau yn fanwl .
- 8.6.5 Mae porth ar-lein yr UK GBC yn <http://www.ukgbc.org/> yn darparu canllawiau manwl sut i wella bioamrywiaeth yn yr amgylchedd adeiledig.
- 8.6.6 Lle bynnag bo cyfleoedd clwydo neu nythu pwrpasol wedi eu cynnwys mewn anheddau, dylai'r datblygwr roi gwybod amdanynt i'r preswylwyr. Mae hyn yn helpu i wella ymwybyddiaeth a lliniaru unrhyw bryderon, yn ogystal â hybu diddordeb mewn bywyd gwyllt ar ddatblygiadau safleoedd mwy, a pham fod hynny'n bwysig. Ar gyfer y bobl hynny sy'n dymuno helpu gyda chofnodi bywyd gwyllt maent yn rhannu eu cartrefi a'u gerddi â nhw, mae cynlluniau cofnodi ar gael ar gyfer bobl lefel sgiliau. Mae'r rhain yn cynnwys arolwg y British Trust for Ornithology's Garden BirdWatch survey, gweler <http://www.bto.org/gbw/> a'r Rhaglen Monitro Ystlumod Cenedlaethol y Bat Conservation Trust, gweler: <http://www.bats.org.uk/pages/nbmp.html>).
- 8.6.7 **Ystlumod**
Mae'r holl ystlumod wedi eu diogelu gan Ddeddfwriaethau'r DU ac Ewrop, ac mae'r ffaith eu bod yn defnyddio ac yn ffafrio adeileddau a godwyd gan bobl yn golygu mai dyma'r achosion mwyaf cyffredin o faterion rhywogaethau a warchodir sy'n wynebu datblygwyr yng Nghonwy. Mae'n anghyfreithlon lladd, anafu neu

gymryd ystumod yn fwriadol neu ddifrodi neu ddinistrio yn fwriadol neu ar hap eu manau clwydo neu aflonyddu arnynt. Gan fod ystumod yn tueddu i ddychwelyd i'r un manau clwydo bob blwyddyn, mae'r safleoedd hyn wedi eu gwarchod boed ystumod yn bresennol ai peidio. Wrth asesu cynigion datblygu, dylid rhoi ystyriaeth i olau allanol / golau mewnol a all effeithio ar ystumod. Yn ogystal, lle mae EPS yn bresennol rhaid cael rhagdybiaeth / gofyniad bod to ffelt 'traddodiadol' yn cael ei ddefnyddio yn hytrach na pilenni 'modern' er mwyn ceisio osgoi "dal/lladd ystumod yn ddamweiniol" a thrwy hynny i sicrhau cydymffurfiaeth ag Erthygl 15 o'r Gyfarwyddeb Cynefinoedd.

8.6.8 Mae Conwy yn gadarnle ar gyfer yr ystum pedol lleiaf ac mae sawl man clwydo ystumod pedol lleiaf trwy'r sir. Mae ACA a sawl SoDdGA wedi cael eu dynodi yng Nghonwy a Pharc Cenedlaethol Eryri o ganlyniad i bresenoldeb manau clwydo'r ystum pedol lleiaf.

- 8.6.9 Mae'r ffactorau sy'n effeithio ar ystumod pedol lleiaf yng Nghonwy yn cynnwys:
- Dinistrio neu adnewyddu hen adeiladau a sguboriau ac adeiladau allanol neu eu bod yn dadfeilio, gan arwain at gollu manau clwydo a safleoedd gaeafgysgu.
 - Colli safleoedd gaeafgysgu o dan y ddaear fel mae eu mynedfeydd yn cael eu cau oherwydd rhesymau diogelwch.
 - Colli cynefinoedd sy'n gyfoeth o bryfed, yn enwedig nodweddion llinol gan gynnwys gwrychoedd, llinellau coed a llystyfiant coediog wrth afonydd, yn ogystal â choetiroedd, gwlyptiroedd a hen borfeydd.
 - Darnio cynefinoedd a cholli llwybrau hedfan rhwng darnau yn enwedig gwrychoedd.
 - Credir bod defnyddio cadwolion coed tocsig a chemegau eraill mewn croglofftydd a hen adeiladau yn cael effaith negyddol ar boblogaethau ystumod – trwy wenwyno'r ystumod yn uniongyrchol a thrwy ostwng faint o ysglyfaeth sydd ar gael iddynt.
 - Credir bod y rhywogaeth yn agored iawn i niwed yn ystod gaeafau caled.

8.6.10 **Tylluanod gwyn**

Efallai bydd tylluanod gwyn yn gadael olion gwyn eu carthion (white wash) i lawr coed toeau a waliau, ac yn aml yn gadael plu a phelenni (gweddillion llwyd ysglyfaeth wedi ei chwydu) tua 5cm o hyd. Mae ei nyth yn cynnwys haen o belenni ar fan amgaeedig gwastad fel rhwng bêls gwellt, neu ar danc dŵr sych ar lawr croglofft neu atig neu du fewn i'r simnai. Gellir gosod blychau nythu i annog pâr i sefydlu tiriogaeth a bridio. Byddai disgwyl i unrhyw ddatblygiad sydd yn arwain at gollu safle nythu, ddarparu safle addas arall a bod hynny wedi'i nodi yn y cais. Dylai unrhyw adeiladau amaethyddol ychwanegol ddarparu cyfleoedd nythu newydd i gynyddu elw bioamrywiaeth y datblygiad. Gellir darparu manylion ar gyfer blychau nythu gan yr awdurdod lleol neu ewch i wefan yr Ymddiriedolaeth Tylluanod Gwyn yn: <http://www.barnowltrust.org.uk/infopage.html?id=42> ac oddi ar wefan BTO yn <http://www.bto.org/notices/nestbox.pdf>.

8.6.11 **Gwenoliaid du, gwenoliaid a gwenoliaid y bondo**

O dan Adran 1 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 mae'n drosedd i ladd, anafu, neu gymryd (gadael neu gael gwared ar) aderyn gwyllt yn fwriadol, (ac eithrio ychydig o rywogaethau pla y gellir eu rheoli o dan drwydded), cymryd neu niweidio nyth os yw'n cael ei ddefnyddio neu ei greu, neu i gymryd wyau neu eu dinistrio.

8.6.12 Yn ychwanegol at y gwaharddiadau uchod, mae nifer o rywogaethau adar sydd wedi'u cynnwys yn y rhestr yn Atodlen 1 y Ddeddf yn cael eu diogelu ymhellach, oherwydd mae'n drosedd ychwanegol aflonyddu'n fwriadol ar yr adar hyn wrth iddynt nythu neu fagu cywion, neu aflonyddu ar gywion sy'n dibynnu ar eu rhieni. Bydd angen i ddatblygwyr osgoi aflonyddu ar adar sy'n nythu yn ystod y tymor bridio, a bydd y caniatâd cynllunio yn adlewyrchu hynny, yn ogystal â chynnwys amod o ran darpariaeth nythu lle bydd safleoedd nythu yn cael eu dinistrio fel rhan o'r datblygiad.

8.6.13 Mae gwenoliaid du, gwenoliaid a gwenoliaid y bondo'n defnyddio adeiladau'n aml ar gyfer nythu ynddynt. Mae gwenoliaid yn adeiladu eu nythod mewn mannau agored dan do fel o dan drawstiau a silffoedd gan fynd i'r adeilad a dod ohono mewn twll yn y bargod neu dan y bondo, trwy lechi wedi'u torri neu trwy ddrysau a ffenestri agored. Mae gwennol y bondo'n tueddu i nythu y tu allan, dan y bondo, tra bo'r wennol ddu yn gallu defnyddio'r naill lle neu'r llall. Hyd yn oed os nad oes modd cyrraedd y nythod, gellir gweld yr adar yn amlwg pan maent yn hedfan i mewn ac allan o'r nythod.

8.6.14 Gellir creu mannau nythu ar gyfer gwenoliaid du yn rhwydd ac yn rhad mewn adeiladau presennol a rhai newydd. Bydd y gwenoliaid du yn dod o hyd i'r mannau hyn yn hwy neu'n hwyrach, ond bydd y siawns o lwyddo'n llawer uwch petai'r gwenoliaid du sy'n hedfan yn isel ac yn swllyd eisoes yn yr ardal. Gellir creu cartref ar gyfer gwenoliaid du heb unrhyw anhawster. Bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn disgwyl i ddatblygwyr ystyried y canllawiau a ganlyn:

- Ni ddylai unrhyw waith gael ei wneud ar y to tra bo'r gwenoliaid du'n nythu (Mai i Awst)
- Ni fydd unrhyw waith yn aflonyddu ar safleoedd nythu'r gwenoliaid du
- Bod tyllau mynediad y gwenoliaid du'n cael eu cadw neu fod tyllau newydd yn cael eu creu i gyd-fynd yn union â'r hen rhai.

8.6.15 Lle gallai'r gwenoliaid du fod yn nythu:

- Bondo - mewn bondo "agored" o dan res isaf y teils, uwchlaw'r lander, yn union y tu fewn i ofod y to.
- Tyllau – mewn tyllau mewn waliau lle mae'r peipiau wedi cael eu tynnu
- Sêl blwm - ar ben briciau neu mewn tyllau o dan 'sêl blwm rhydd neu ar simneiau a ffenestri to.
- Talcenni – tu ôl i'r estyll tywydd a thalcenni, ar ymylon briciau
- Teils - o dan deils rhydd neu wedi symud, ar ddistiau'r to neu ffelt

- ‘Pwyntio’ - mewn tyllau rhwng y bylchau mewn cerrig neu friciau lle mae’r pwyntio’n rhydd neu wedi dod oddi yno.

8.6.16 Sut i ddiogelu nythod a galluogi gwenoliaid du i fridio’n ddiogel:

- Peidiwch byth ag ail-doi pan fo gwenoliaid du yn nythu (diwedd Ebrill i ddechrau Awst fel arfer)
- Nythod bondo - gadael y bondo yn agored ydi’r ateb symlaf a gorau. Fel arall, torrwrch slotiau yn y soffit neu’r byrddau wynebu i gyd-fynd a’r hen fynedfeydd
- Petai angen hynny, gosodwch raniad pren haenog awyrog o leiaf 30cm i mewn i’r groglofft i amgáu manau nythu gwenoliaid fel eu bod yn gallu defnyddio’r ardal hon.
- Nythod mewn tyllau - lle na fyddant yn creu problem, gadewch hen dyllau fel y maent. Gallwch ffitio teil i mewn i’r ‘pwyntio’ uwchlaw i ffurfio llethr i gadw’r glaw allan neu fel arall, gosodwch fric gwennol ddu greu man nythu arall.
- Tu ôl i sêl blwm - estyn neu ailosod y sêl blwm ar y grib / teils pen i alluogi’r gwenoliaid du i ddod yn ôl i mewn heb effeithio ar y system gwrth-dywydd
- Tu mewn i’r talcenni - unai gadwch lonydd iddynt, neu fel arall gosodwch leoedd nythu pren syml y tu ôl yr estyll tywydd
- O dan y teils - ailosodwch y teils gan gadw’r hen fylchau lle’r oedd y gwenoliaid yn cael mynediad yn union ble roeddynt.
- Tu mewn i’r bylchau, tu ôl i bwyntio diffygiol – gadewch y fynedfa i ble mae’r gwenoliaid du yn nythu, heb ei phwyntio .
- Peidiwch â thrin y manau y mae’r gwenoliaid du yn eu defnyddio gyda phlaladdwyr na bioladdwyr

Os nad oes modd cyflawni’r uchod – dylech ystyried gosod blychau nythu. Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn: <http://www.swift-conservation.org/>

8.6.17 **Llygod y Dŵr**

O 12 Awst 2008 mae Llygod y Dŵr yng Nghymru wedi cael ei ddiogelu’n llawn dan Adran 9 Deddf Bywyd Gwylt a Chefn Gwlad 1981

8.6.18 Mae’n drosedd:

- Lladd, anafu neu gymryd (dal) llygoden y dŵr yn fwriadol;
- Meddu ar neu reoli llygoden y dŵr, yn fyw neu’n farw neu unrhyw ran o lygoden y dŵr neu unrhyw beth sydd wedi ei gymryd oddi wrth lygoden y dŵr;
- Difrodi, dinistrio neu atal mynedfa, boed hynny ar hap neu’n fwriadol, unrhyw adeiledd sy’n cael ei ddefnyddio gan lygoden y dŵr fel; lloches neu ar gyfer diogelwch;
- Aflonyddu ar lygoden y dŵr yn fwriadol neu ar hap, sy’n byw mewn adeiledd neu le y mae’n ei ddefnyddio fel lloches neu ar gyfer diogelwch;
- Gwerthu, cynnig, neu arddangos i’w gwerthu, neu fod mewn meddiant neu gludo i’r pwrpas o werthu, unrhyw lygoden y dŵr, yn fyw neu’n farw, neu unrhyw ran o lygoden y dŵr neu unrhyw beth a gymerwyd oddi wrth lygoden y dŵr;

- Cyhoeddi unrhyw hysbyseb, neu achosi i unrhyw hysbyseb gael ei gyhoeddi, sy'n debygol o gael ei ddeall fel bod unigolyn yn prynu neu yn gwerthu, neu yn bwriadu prynu neu werthu unrhyw un o'r pethau uchod.

8.6.19 Mae uchafswm cosb troseddau o dan Adran 9 yn ddirwy hyd at £5,000, carchar am hyd at chwe mis, neu'r ddau ar gyfer pob anifail mewn perthynas â'r drosedd a gyflawnir. Ni fydd unrhyw drosedd yn cael ei chyflawni pe bai'r gweithgaredd a fyddai fel arall yn arwain at gyflawni trosedd yn cael ei gwneud o dan (ac yn unol â) drwydded a roddwyd gan CNC neu Lywodraeth Cymru o dan adran 16 (3) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981.

8.6.20 Mae trwyddedau ar gael oddi wrth CNC o dan adran 16(3) ar gyfer y canlynol:

- Pwrpas gwyddonol neu addysgol;
- Modrwyo neu farcio, neu archwilio unrhyw fodrwyo neu farc ar anifail gwyllt;
- Cadwraeth anifail gwyllt neu blanhigion gwyllt neu eu cyflwyno i ardal benodol;
- Diogelu unrhyw gasgliad sŵolegol neu fotanegol;
- Ffotograffiaeth

8.6.21 Mae trwyddedau ar gael oddi wrth Lywodraeth Cymru o dan adran 16(3) ar gyfer y pwrpas a ganlyn:

- diogelu iechyd y cyhoedd neu ddiogelwch y cyhoedd ;
- Atal afiechyd rhag ymledu;
- Atal difrod difrifol i wartheg, bwydydd ar gyfer gwartheg, cnydau, llysiau, ffrwythau, coed sy'n tyfu neu unrhyw fath o eiddo neu i bysgodfeydd.

8.6.22 Nid oes darpariaeth dan Ddeddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 i roi trwyddedau ar gyfer datblygu, cynnal a chadw na rheoli tir, oni bai fod gweithgareddau fel hyn yn cael eu cyflawni ar gyfer un o'r rhesymau a nodwyd yn adran 16(3) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981. Felly, dim ond ar ôl cytuno ar Gamau Osgoi Rhesymol gyda CNC a'r Awdurdod Cynllunio y dylid caniatáu datblygiadau.

8.6.23 **Gwaith Datblygu yn effeithio ar Lygod y Dŵr**

Pan gynigir gwaith datblygu neu gynnal a chadw mewn ardal gyda llygod y dŵr yn byw yno , neu sy'n debygol o fod yn byw yno, argymhellir gweithredu'r camau a ganlyn:

- Sefydlu a oes llygod y dŵr yn yr ardal neu'n agos ati, trwy gyfuniad o arolygon maes ac ymgynghori â Chofnod. Mae canllawiau pellach ar gynnal arolwg llygod y dŵr ar gael yn Llawlyfr Cadwraeth Llygod y Dŵr (2^{il} rifyn).
- Petai llygod y dŵr yn yr ardal, yna dylid ystyried a ellir newid y cynigion er mwyn sicrhau na fydd y gwaith yn cyflawni trosedd, e.e. ni fydd yn aflonyddu ar lygod y dŵr neu golli tyllau llygod y dŵr, ac yn y blaen. Os nad yw hyn yn bosibl, yna dylid ystyried sut y gellir lliniaru'r effeithiau ar

lygod y dŵr ac a ellid cymryd camau i liniaru unrhyw effeithiau niweidiol. Os nodwyd camau posibl, yna dylid eu gweithredu.

8.6.24 Os penderfynir bwrw ymlaen gyda'r datblygiad neu'r gwaith cynnal a chadw dan amgylchiadau fel hyn, gallai'r ffaith bod unigolyn wedi gweithredu'r camau uchod, ein helpu i sefydlu petai'n cael ei erlyn, bod unrhyw weithred a gyflawnwyd, a oedd yn anghyfreithlon o dan adran 9 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, yn ganlyniad damweiniol i weithgarwch cyfreithlon na ellid ei osgoi'n rhesymol. Petai'n gallu sefydlu hyn, a boddhau llys, ni fydd yn euog o unrhyw drosedd o dan yr adran honno.

8.6.25 Bydd angen i unrhyw unigolyn sy'n bwriadu gwneud gwaith datblygu neu gynnal a chadw dan yr amgylchiadau hyn, ddefnyddio eu doethineb eu hunain ynglŷn ag yw'r camau maent wedi'u cymryd yn debygol o fod yn ddigonol i'w galluogi i sefydlu - petaent yn cael eu herlyn- bod eu gweithredoedd o ganlyniad damweiniol i weithgarwch cyfreithlon na ellid fod wedi'u hosgoi yn rhesymol. Yn y pen draw, fodd bynnag, bydd hwn yn fater i lys benderfynu arno ar sail y ffeithiau penodol, ac oherwydd hynny, nid yw Llywodraeth Cymru na CNC yn gallu darparu cyngor cyfreithiol ar y mater hwn.

8.6.26 **Moch Daear**

Mae moch daear wedi eu gwarchod o dan Ddeddf Gwarchod Moch Daear 1992. Nid ydynt yn rhywogaeth mewn perygl, ond mae hen hanes o'u herlyn. Dim ond canllawiau i brif ddarpariaethau'r gyfraith yw'r rhain. Nid yw awdurdodau cynllunio lleol yn darparu cyngor cyfreithiol i ddatblygwyr. Dylid ymgynghori â thestun y ddeddf a gofyn am gyngor cyfreithiol proffesiynol ar gyfer union ddehongliad troseddau ac amddiffynfeydd. Mae'r Ddeddf yn seiliedig ar yr angen yn bennaf i atal cam-drin moch daear ac i atal eu niweidio a'u hanafu'n fwriadol. Mae hefyd yn cynnwys cyfyngiadau perthnasol ehangach, ac mae'n bwysig fod datblygwyr yn gwybod sut gallai hyn effeithio ar eu gwaith. Mae'r canlynol yn droseddau:

- Lladd, anafu, cymryd, meddiannu, neu gam-drin mochyn daear o'ch gwirfodd;
- Ceisio ymyrryd â daear; neu wneud hynny boed yn fwriadol neu'n ddi-hid.

8.6.27 Mae ymyrryd â daearau yn cynnwys difrodi neu ddinistrio daear, rhwystro mynediad i ddaear ac aflonyddu ar fochyn daear pan fydd yn byw mewn daear. Nid yw'n anghyfreithlon, ac felly nid oes angen trwydded i ymgymryd â gweithgareddau aflonyddu yn yr ardal y ddaear, os nad yw'n aflonyddu ar foch daear, ac nid yw'r ddaear yn cael ei difrodi na'i rhwystro. Lle na ellir osgoi ymyrryd â daear, sydd ag arwyddion i ddangos ei bod yn cael ei defnyddio wrth ddatblygu safle, dylid gofyn am drwydded oddi wrth CNC neu Lywodraeth Cynulliad Cymru i awdurdodi gweithgarwch a fyddai fel arall yn cael ei ystyried yn drosedd?

- 8.6.28 Mae rhagor o ganllawiau ar gael yn y cyhoeddiad gan CNC “Moch Daear: canllaw i ddatblygwyr”, yn: www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
- 8.6.29 **Gwlyptiroedd a Chyrsiau Dŵr**
Mae pyllau, llynnoedd, afonydd, ffrydiau, a gwlyptiroedd i gyd yn bwysig ar gyfer symudiadau rhywogaethau ar gyfer bioamrywiaeth. Dylai datblygiad arwain at gynnydd mewn ardaloedd dŵr agored neu ardaloedd corslyd o gwmpas dŵr a chyrsiau dŵr, neu mewn gwelyau cyrs neu dylai greu ardaloedd gwlyb dros dro neu dymhorol. Mae hen hanes o ddraenio amaethyddol a threfol wedi arwain at gollu llawer o byllau, draenio tir a sythu neu gwlfertio cyrsiau dŵr. Dylai datblygiadau newydd gyfrannau at adfer yr hyn a gollwyd yn y gorffennol, adfer ystum afonydd a chael gwared ar gylfertiau, er enghraifft, a dylent warchod cyfanrwydd coridorau'r afonydd a ffrydiau.
- 8.6.30 Gall nodweddion draenio cynaliadwy ddarparu gwasanaethau hanfodol fel rheoli risg llifogydd / gwahanu, cael gwared â llygredd trwy ei wasgaru, tynnu carbon o'r awyr a'i gadw mewn dŵr, hamdden a manteision i fywyd gwyllt, gwella ansawdd bywyd, a gwella gwerthoedd eiddo. Mae gorlifdroedd hefyd yn darparu cyfle unigryw yn y dirwedd ar gyfer creu coetiroedd gwlyb a chorstir pori, y mae'r ddau ohonynt yn gynefinoedd blaenoriaeth.
- 8.6.31 Efallai byddai angen lleiniau rhagod wedi eu rheoli, neu estyn nodweddion wedi eu rheoli ar gyfer lleiniau rhagod wedi eu rheoli, rhwng datblygiadau a nodweddion o'r fath. Maent yn nodweddion pwysig ar gyfer rhywogaethau blaenoriaeth fel ystlumod, dyfrgwn a llygod y dŵr.

8.7 Atodiad 7- Monitro a Rheoli

8.7.1 Dulliau Cynllunio i Helpu Bioamrywiaeth – Amodau ac Ymrwymadau Cynllunio

Amodau cynllunio ac ymrwymadau cynllunio adran 106 ydi'r prif ddulliau a ddefnyddir i reoli datblygu ar gyfer cadwraeth a gwella bioamrywiaeth. Gellir gofyn i ddatblygwyr gynnal neu gyfrannu at y gwaith sydd ei angen i warchod neu wella gwerth cadwraeth natur yr amgylchedd sy'n berthnasol i'r datblygiad. Gallai hyn gynnwys arolygon, asesiadau effaith, gwaith lliniaru, iawndal neu gynlluniau rheoli (gyda datganiadau dull cysylltiedig) â monitro. Mae'n bosibl, lle bo hynny'n briodol, y bydd angen mynediad gwell at ardaloedd sydd â chyfoeth o fywyd gwyllt, fel rhan o nifer o fesurau a fyddai'n gallu gwella ansawdd bywyd ar gyfer cymunedau lleol.

8.7.2 Amodau

Gall y mesurau sydd wedi eu cynnwys mewn amodau cynllunio gyfrannu'n sylweddol at gadwraeth bioamrywiaeth, er enghraifft, gallant helpu i osgoi effeithiau niweidiol, neu ddileu'r tebygolrwydd o effeithiau niweidiol, a lliniaru neu leihau effeithiau niweidiol lle na ellir eu hosgoi. Gall y mesurau hyn hefyd wneud iawn am golledion neu effeithiau na ellir eu hosgoi na'u lliniaru, a gellir eu defnyddio i wella agweddau o'r amgylchedd naturiol a'i fwynhad.

8.7.3 Ymrwymadau Cynllunio

Mae ymrwymadau cynllunio'n gytundebau rhwng yr awdurdod cynllunio a'r datblygwr. Gellir hefyd eu creu gan y datblygwr yn unig, lle bydd yr awdurdod cynllunio yn gorfodi'r ymrwymiad dan gytundeb Adran 106. Dyma enghreifftiau o ymrwymadau cynllunio:

- Darparu mynediad a chyfleusterau dehongli ar gyfer cynefin
- Darparu cynefinoedd newydd
- Monitro oddi ar y safle ar gyfer unrhyw effeithiau hydrolegol y datblygiad
- Rheoli nodwedd benodol (er enghraifft cynefin ar safle neu oddi ar safle) am gyfnod penodol
- Darpariaethau ariannol ar gyfer sefydlu neu reoli.

8.7.4 Rheoli Datblygiad a Ganiateir

Mae NCT5 yn tynnu sylw at effeithiau posibl datblygiad a ganiateir ar safleoedd o werth cadwraeth natur. Gallai sawl math o ddatblygiad a ganiateir, yn enwedig y rheiny sy'n ymwneud â hamdden, defnyddio tir dros dro, a rhai gweithgareddau ymgwymerwyr statudol, gael effaith sylweddol ar fioamrywiaeth, a gallant effeithio ar rai nodweddion daearegol neu geomorffegol neu brosesau naturiol. Mewn sawl achos, gellir osgoi niwed trwy reoli'r datblygiad, er enghraifft, trwy gyfyngiadau tymhorol, eithrio ardaloedd sensitif neu gyfyngu ar raddfa neu ddwysedd y datblygiad. Mae Erthygl 4 ***Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad a Ganiateir yn Gyffredinol)*** 1995 yn darparu mecanwaith pwysig ar gyfer rheoli datblygiad a ganiateir lle bo angen hynny. Mae Erthygl 1 (5) o'r

gorchymyn hwn yn rhestru AHNE fel un o nifer o ddynodiadau lle mae mwy o gyfyngiad ar ddatblygiad a ganiateir.

8.7.5 Ni ellir symud ymlaen gyda datblygiad sydd angen asesiad amgylcheddol o dan **Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Aseiad Effaith Amgylcheddol) (Cymru a Lloegr) 1999**, a fyddai fel arfer yn cael ei ganiatáu gan Orchymyn Datblygu, heb wneud cais cynllunio llawn. Mae'r **Rheoliadau Cynefinoedd** 1994 hefyd yn cyfyngu ar ddatblygiad a ganiateir yn debygol o gael effaith sylweddol ar Safle Ewropeaidd, allai fod yn Ardal Arbennig ar gyfer adar gwyllt, neu'n Ardal Gadwraeth Arbennig ar gyfer cynefinoedd anifeiliaid, planhigion neu'n gynefinoedd naturiol.

8.7.6 Nid yw hawliau datblygu a ganiateir ar gyfer defnydd dros dro ar dir ar gyfer gemau rhyfel, moduro na saethu colomennod clai, yn berthnasol mewn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE). Felly mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer defnyddio tir fel hyn mewn AHNE.

8.7.7 Lle mae'r rheoli bioamrywiaeth wedi cael ei gynnwys mewn caniatâd cynllunio, dylai datblygwr fonitro llwyddiannau unrhyw waith o'r fath.

8.7.8 **Gallai'r gwaith monitro gynnwys:**

- Sefydlu cynefin newydd neu well – gellir gosod meini prawf llwyddiant
- Effeithlonrwydd mesurau lliniaru a gwneud iawn perthnasol - gellir pennu meini prawf llwyddiant a fyddai'n cydymffurfio â chyfraith bywyd gwyllt ar ôl rhoi caniatâd cynllunio. Bydd y datblygwr (sy'n sicrhau bod y gwaith wedi cael ei wneud yn unol â'r caniatâd cynllunio a'r cyngor arbenigol), yn gyfrifol ar y cyd am hyn gyda'r awdurdod cynllunio lleol (sy'n sicrhau y cydymffurfir â'r amodau/ymrwymadau), Llywodraeth Cymru (sy'n sicrhau y cydymffurfir ag unrhyw drwydded) a CNC (sy'n cynghori ar rywogaethau a warchodir),

8.7.9 Lle mae angen rheoli safle (er enghraifft ar gyfer cynefinoedd), bydd angen gwneud hynny am gyfnod amser addas, er mwyn sicrhau bod yr amodau/ymrwymadau cynllunio yn cael eu gweithredu'n effeithiol. I gyflawni hyn, efallai bydd angen i ddatblygwyr gyflwyno cynllun rheoli neu ddatganiad dull gyda'r cais cynllunio, neu fel amod yn y caniatâd cynllunio. Yn ddelfrydol, dylai cynllun rheoli gynnwys:

- Disgrifiad o'r nodweddion i'w rheoli
- Amcanion a nodau rheoli
- Cynllun gwaith manwl pum mlynedd a chynllun tymor hirach os yw hynny'n briodol
- Trefniadaeth a'r gweithwyr sy'n gyfrifol am weithredu'r cynllun
- Meini prawf llwyddo a'r camau monitro

8.7.10 Fel rhan annatod o ddatblygiad llwyddiannus, mae'n rhaid i fioamrywiaeth fod yn thema allweddol mewn dyluniad neu brif gynllun, yn enwedig o ran cadwraeth cynefinoedd sydd eisoes yn bod, a chreu cynefinoedd newydd, a sut y bydd y rhain yn cael eu dylunio a'u rhaglennu ochr yn ochr â'r datblygiad. Dylai'r datblygwr ddarparu canllawiau sut i reoli safle i berchnogion datblygiadau newydd (a mannau awyr agored eraill fel balconïau, toeau gwyrdd ac yn y blaen) i annog bioamrywiaeth. Os oes angen cynllun rheoli, neu os oes angen creu cynefinoedd newydd, dylai datblygwyr ddarparu gwybodaeth a chanllaw i annog cyfranogi i ddiogelu asedau bioamrywiaeth y safle.

9 Cyfeiriadau

- 9.1 CLG (2009) *Planning Policy Statement: Eco-towns – A Supplement to Planning Policy Statement 1*. Department for Communities and Local Government: London. <http://www.communities.gov.uk/documents/planningandbuilding/pdf/ppsecotownsPdf>
- 9.2 ODPM (2005) *Planning Policy Statement 9: Biodiversity and Geological Conservation*. Office of the Deputy Prime Minister: London. <http://www.communities.gov.uk/documents/planningandbuilding/pdf/147408.pdf>
- 9.3 CLG (2007) *Planning Policy Statement: Planning and Climate Change – Supplement to Planning Policy Statement 1*. Department for Communities and Local Government: London.
- 9.4 CIWEM (2004) *Habitats Guide*. Chartered Institution of Water and Environmental Management: London. <http://www.ciwem.org/>
- 9.5 UK GBC Biodiversity Task Group (2009) *Biodiversity and the Built Environment*. UK Green Building Council: London. <http://www.ukgbc.org/resources/publication/uk-gbc-task-group-report-biodiversity-and-built-environment>
- 9.6 Defra ar ran yr UK Biodiversity Partnership (2007) *Conserving Biodiversity in a Changing Climate: Guidance on Building Capacity to Adapt*. Department for Environment, Food and Rural Affairs: London. <http://www.ukbap.org.uk/Library/BRIG/CBCCGuidance.pdf>
- 9.7 TCPA (2004) *Biodiversity by Design: A Guide for Sustainable Communities*. Town and Country Planning Association: London. <http://www.tcpa.org.uk/pages/biodiversity-by-design.html>
- 9.8 Arfer Gorau mewn Bioamrywiaeth a Chadwraeth Ddaearegol mewn Cynllunio a Datblygu. Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog, 2008. D. Tyldesley and Associates
- 9.9 Arfer Gorau mewn Cadwraeth Bioamrywiaeth mewn Cynllunio a Datblygu, D. Tyldesley and Associates, Mai 2010, Cyngor Gwynedd.

10 Dolenni Defnyddiol

- Action for swifts www.actionforswifts.blogspot.com/
- Bat Conservation Trust www.bats.org.uk
- Barn Owl Trust www.barnowltrust.org.uk
- Black Redstarts - <http://www.blackredstarts.org.uk>
- British Trust of Ornithology <http://www.bto.org>
- Buglife <http://www.buglife.org.uk>
- Building Research Establishment (BRE) www.bre.co.uk/sustainable
- The Butterfly Conservation www.butterfly-conservation.org
- Centre for Alternative Technology www.cat.org.uk
- CIRIA <http://www.ciria.org>
- COFNOD www.cofnod.org.uk
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy www.conwy.gov.uk
- BAP Conwy <http://www.conwy.gov.uk/sectionextra.asp?cat=1361&Language=1an>
- Cyngor Sir Ddinbych www.denbighshire.gov.uk
- Bioamrywiaeth Cyngor Sir Ddinbych <http://www.biodiversityindenbighshire.co.uk>
- Energy Efficiency Best Practice Programme
<http://www.direct.gov.uk/en/environmentandgreenerliving/energyandwatersaving/index.htm>
- Asiantaeth yr Amgylchedd <http://www.environment-agency.gov.uk>
- Comisiwn Coedwigaeth <http://www.forestry.gov.uk>
- Joint Nature Conservation Committee www.jncc.gov.uk
- Living Roofs www.livingroofs.org
- London's Swifts <http://www.londons-swifts.org.uk>
- Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol www.nationaltrust.org.uk
- Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gogledd Cymru www.northwaleswildlifetrust.org.uk
376 Y Stryd Fawr , Bangor, Gwynedd LL571YE. Ffôn 01248 351541
- Polisi Cynllunio Cymru
<http://wales.gov.uk/docs/desh/publications/110228ppwediton4en.pdf>
- Renewable Energy CCA, Energy Savings Trust www.est.org.uk
- Renewable Energy <http://www.decc.gov.uk/>
- Sustain <http://www.sustainweb.org>
- CFGA www.rspb.org.uk
- Sustainable Homes www.sustainablehomes.co.uk
- Town and Country Planning Association (TCPA) <http://www.tcpa.org.uk>
- Trees and Design Action Group <http://www.forestry.gov.uk/tdag>
- UK BAP www.ukbap.org.uk
- Llywodraeth Cymru www.wales.gov.uk
- Wildfowl and Wetlands Trust <http://www.wwt.org.uk>
- The Wildlife Trusts (TWT) <http://www.wildlifetrusts.org>
- Woodland Trust <http://www.woodlandtrust.org.uk>